

Dinas a Sir Abertawe

Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2012/13 (Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2013)

Adroddiad



Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2012/13

1. Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2012-13. Dyma ein hail adolygiad dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Yr adolygiad cyntaf o gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth cyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i ofynion ein ddyletswyddau deddfwriaethol.

2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd adolygiad anffurfiol ar ddiwedd chwe mis cyntaf eleni. Cysylltwyd â'r holl gydweithwyr a gyfrannodd at ddatblygu'r CCS a gofynnwyd iddynt ddarparu adroddiadau am y cynnydd diweddaraf os dymument ond, yn bwysicach, gysylltu â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau petai unrhyw bryderon neu anghenion cefnogi ganddynt, e.e. am eu hymrwymyiadau unigol. Arweiniodd hyn at ychydig o adroddiadau cynnydd ac ymholiadau (ond dim byd a oedd yn destun pryder).

Cynhaliwyd adolygiad y flwyddyn gyntaf yn ystod mis Mai 2013 a darparodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Ceir yr holl wybodaeth hon yn Atodiad 1 ac amlygir unrhyw gamau gweithredu newydd mewn [glas](#) a thrwy seren.

3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd yn ystod 2011-12, ac rydym wedi ychwanegu ati trwy lawer o'r gweithgareddau y sonnir amdanynt trwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ogystal â hyn:

- Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb; mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.
- Cwblhawyd asesiad o anghenion er mwyn cyfeirio ein Cynllun Integredig Sengl cyntaf – Cynllun Un Abertawe.
- Casglwyd gwybodaeth fanwl am gydraddoldeb i gyfeirio seminar ar y cyd rhwng cydweithwyr yn yr Adran Addysg, y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – i archwilio'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi.
- Cynhelir Arolwg Mawr Plant a Phobl Ifanc ar draws ysgolion Abertawe yn ystod 2013; bydd hyn yn darparu llawer o wybodaeth fanwl wrth iddo gael ei ddadansoddi.
- Rydym yn parhau i ychwanegu at ein cronfa dystiolaeth wrth i wybodaeth ddod yn hysbys, er nad yw diweddariad ffurfiol o'r adroddiad cychwynol wedi cael ei gwblhau eto.

- Nid yw'r wybodaeth a gasglwyd ac a gyhoeddwyd y llynedd wedi cael ei chynyddu hyd yma; fodd bynnag, byddwn yn ei hailarchwilio yn ystod 2013/14 i sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n data corfforaethol, yn arbennig trwy ganlyniadau cyfrifiad 2011 sy'n dod i'r amlwg. Darperir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 (Amcan Cydraddoldeb 2).

4. Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant

Ceir yr wybodaeth am y gweithlu a ddelir ar hyn o bryd yn Atodiad 2. Caiff yr wybodaeth ei chyflwyno mewn dwy ran oherwydd bod gennym ddwy set o ddata cydraddoldeb ar gyfer cydweithwyr ar hyn o bryd:

- Gwybodaeth a ddelir eisoes
- Gwybodaeth newydd a gasglwyd trwy arolwg proffil y gweithlu

Mae gwaith wedi dechrau i gyfuno'r ddwy set o ddata a chaiff hwn ei gwblhau yn 2014.

Cynhaliwyd yr arolwg proffil y gweithlu ddechrau 2013. Mae angen mwy o waith i gyflawni dadansoddiad manylach o ran unrhyw gamau gweithredu mae angen i ni eu cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond mae'r wybodaeth gychwynnol yn gadarnhaol gyda chyfradd ymateb ddigonol ar gyfer ein harolwg cyntaf o'i fath. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys gwelliannau i'n system Adnoddau Dynol fel y gellir dal y data sydd wedi'i gronni a darparu rhyngwyneb ar-lein i alluogi aelodau'r staff i ddiweddar eu data personol mewn amser go iawn ac uniongyrchol.

Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â sgiliau ieithyddol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn neddfwriaeth y Gymraeg a hefyd ddarparu cofrestr sgiliau y gellir ei defnyddio dan y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol arfaethedig.

5. Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ystod 2011-12.

5.1. Pwyllgor Cydraddoldeb

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb ym mis Mai 2012 dan y weinyddiaeth newydd. Mae'r pwyllgor, sy'n cynnwys cynghorwyr, yn cyfarfod bob mis a bydd yn cynnal ei adolygiad blynyddol cyntaf ym mis Mai 2013.

Bu cyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2012 yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cyflwyniad i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb
- Trosolwg o drefniadau cynnwys cyfredol gyda grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau'r bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig
- Anghydraddoldebau iechyd
- Y broses o asesu effaith cydraddoldeb (gan gynnwys ar gyfer y gyllideb
- Troseddau casineb
- Stonewall Cymru
- Atal

- Ymgynghori ynghylch deddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol.

5.2 Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae'r weinyddiaeth hefyd wedi penodi nifer o Aelodau Hyrwyddo etholedig. Mae'r hyrwyddwyr yn ymdrin â holl nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref) a chânt eu cefnogi gan aelodau'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a chydweithwyr o adrannau eraill lle bo'n briodol.

Nod yr Aelodau Hyrwyddo yw rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i unrhyw unigolyn neu bwyllgor.

Mae Aelodau Hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau a phenderfyniadau'r cyngor.

Mae'r Aelodau Hyrwyddo'n cwrdd bob tri mis ac yn derbyn cefnogaeth swyddog dynodedig gan y Tîm Mynediad i Wasanaethau. Maent hefyd yn derbyn gwybodaeth gan sefydliadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Rydym wedi diweddarau ein proses AEC mewn ymateb i'r Rheoliad Cynnwys newydd. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ehangu'r broses i gynnwys gofalwyr yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar dlodi, cydlynid cymunedol a'r iaith Gymraeg. Mae'r newidiadau wedi cael eu gwneud a byddant yn cael eu treialu cyn cael eu cyhoeddi; bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod ein proses yn parhau'n hwylus, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Mae gwaith bron wedi'i gwblhau gyda'n Hadran Gyfreithiol ar brotocol i sicrhau bod AEC yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor. Daw hyn i rym yn ddiweddarach yn 2013.

Mae pob adroddiad AEC wedi'i gwblhau yn parhau i gael ei gyhoeddi yn www.abertawe.gov.uk/eia ac (fel ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol) roedd cyllideb y cyngor ar gyfer 2012/13 yn destun y broses AEC. Mae'r canlyniadau ar gael yn <http://www.abertawe.gov.uk/EIABudget201314>.

5.4 Ymgynghori a Chynnwys

Cymeradwywyd ein Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys gan y cyngor y llynedd. Mae'r strategaeth a rhai o'r dulliau ymgynghori a chynnwys a ddefnyddir gan y cyngor ar gael yn <http://www.abertawe.gov.uk/consultation>. Darperir diweddariad ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 1. Disgwylir cynnal yr adolygiad blynyddol cyntaf o'r strategaeth yn ystod haf 2013.

Yn dilyn gwaith y llynedd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

➤ Fforwm LGBT

Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi cymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) Abertawe'n fawr ac mae gwaith yn parhau gyda sefydliadau partneriaeth i gefnogi mentrau i herio rhagfarn a gwahaniaethu a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad cadarnhaol dinasyddion LGBT i Ddinas a Sir Abertawe.

Sefydlwyd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012. Rheolir y fforwm gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac mae ei haelodau'n cynnwys gweithwyr a gwirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli diddordebau dinasyddion LGBT.

Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:

- Stonewall Cymru
- Bi Cymru
- Balchder Abertawe
- Cefnogi Dioddefwyr
- Age Cymru
- Trawsrywiol yng Nghymru
- Tawe Butterflies
- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
- Cymdeithas LGBT Prifysgol Abertawe
- Prosiect Undod LGBT Abertawe

yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus megis y DVLA, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Mae'r fforwm wedi mynd o nerth i nerth gyda phresenoldeb yn cynyddu ym mhob cyfarfod. Gyda'i gilydd mae aelodau'r fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau megis Pefr Abertawe, Diwrnod IDAHO, Mis Hanes LGBT, Balchder Abertawe a Diwrnod Deu-welededd. Roedd Dinas a Sir Abertawe'n cyfrannu at drefnu'r holl ddigwyddiadau hyn a nododd bob achlysur ymhellach trwy chwifio'r faner enfys y tu allan i adeilad y Ganolfan Ddinesig. Cafodd baner pobl drawsryweddol ei chwifio hefyd ar gyfer Dydd Cofio Pobl Drawsryweddol ac ar gyfer Pefr Abertawe yn 2012.

➤ Fforwm BME

Bydd Fforwm BME Bae Abertawe yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2013 lle bydd amrywiaeth o sefydliadau sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol yn cynrychioli diddordebau pobl BME yn Abertawe. Caiff y fforwm ei gydlynu gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a'i gadeirio gan yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb dros Hil, Crefydd, Cred a Threftadaeth.

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- BAWSO (Black Association of Women Step Out)

- MEWN (Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig)
- Race Council Cymru
- CCHBA (Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe)
- EYST (Tîm Cefnogi Ieuencid Ethnig)
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Cydweithfa Cymuned Tsieineaidd Abertawe
- Canolfan Gymunedol Affricanaidd
- Cymuned Ffilipino Cymru
- Cymdeithas Ddiwylliannol Thai
- Cymuned Iddewig Abertawe
- YMCA Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- Darparwyr gwasanaethau sector cyhoeddus (gan gynnwys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bwrdd Iechyd PABM).

Nod y fforwm yw gwella cyfathrebu rhwng grwpiau a darparu'r cyfle i rannu arfer da a gwybodaeth. Bydd cyfarfodydd yn galluogi aelodau i gysylltu'n uniongyrchol â Hyrwyddwyr Cydraddoldeb (aelodau etholedig o Gyngor Dinas a Sir Abertawe) ac yn rhoi cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau ymgynghori a chynnwys i sicrhau bod anghenion y gymuned BME yn cael eu hystyried wrth lunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

5.5 Achosion o Gasineb ac Aflonyddu

Mae Gweithdrefn Casineb ac Aflonyddu'r cyngor yn caniatáu i ddiodefwrwr (neu dystion) roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad sydd wedi'i ysgogi gan ragfarn ar sail hil, tueddfryd rhywiol, anabledd etc. Gweithdrefn y cyngor yn unig yw hon ac nid yw'n cynnwys achosion yr adroddir amdanynt i'r heddlu neu unrhyw asiantaethau eraill.

Eleni (2012-2013), adroddwyd am 15 achos o gasineb ac aflonyddu (AGA) i'r cyngor, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â hil. Yn gyffredinol cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt dros y pum mlynedd diwethaf, a allai fod oherwydd yr ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau adrodd eraill megis cyfleuster adrodd ar-lein Cymru Ddiogelach (sy'n cael ei hysbysebu ar wefan allanol y cyngor) a gwaith Tîm Troseddau Casineb Heddlu De Cymru a sefydlwyd yn benodol.

Un o ddatblygiadau newydd eleni yw ein bod bellach yn rhannu'r wybodaeth a gafwyd o'r AGA (o ran lleoliad a math yr achos) â'n cydweithwyr mewn Cydnerthu. Caiff yr wybodaeth hon, ynghyd â ffigurau troseddau casineb gan Heddlu De Cymru, ei chasglu a'i mapio er mwyn nodi ardaloedd yn Ninas a Sir Abertawe lle mae'r achosion hyn yn fwy tebygol o ddigwydd. Yn ei dro, bydd hyn yn cynorthwyo gwaith targed yr agenda Atal.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Heddlu De Cymru ac wedi datblygu amcan cydraddoldeb ar y cyd ynglŷn â throseddau casineb sy'n ymwneud ag anabledd, sydd wedi'i gynnwys yng [Nghynllun Cydraddoldeb Strategol](#) y cyngor.

'Lansio ymgyrch mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru i gynyddu'r ymwybyddiaeth o droseddau casineb sy'n ymwneud ag anabledd yn Abertawe.'

Mae'r gweithredu cysylltiedig yn cynnwys:

- Cydgysylltu â grwpiau anableddau lleol i gofnodi eu profiadau o gasineb ac aflonyddu a chynnwys yr wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad.
- Cynnwys manylion yr ymgyrch a gwybodaeth am ddulliau o adrodd ar wefannau Heddlu De Cymru a DASA.
- Cynnal o leiaf 4 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth gyda grwpiau cymunedol yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch.

Gwnaed cynnydd ym mhob un o'r camau gweithredu uchod. Gweler Atodiad 1 (Amcan Cydraddoldeb 24).

Mae Amcan 4 y Cynllun Cyflwyno Cydlynad Cymunedol (2013 - 2015), sef 'Lleihau troseddau casineb yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchoddedig', yn arddangos ymrwymiad y cyngor i fynd i'r afael â throseddau casineb (neu achosion o gasineb). Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn datblygu Strategaeth Troseddau Casineb (i gyd-fynd â Fframwaith Llywodraeth Cymru) a fydd yn ceisio cyfuno'r holl waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y cyngor a'n partneriaid i weld beth yw'r ffordd orau i ni gydgysylltu. Dyma rai o'r meysydd y bydd y strategaeth yn canolbwyntio arnynt:

- gwaith hyrwyddo proses adrodd trydydd parti'r cyngor
- hyfforddi staff rheng flaen
- mapio achosion o gasineb ar draws Dinas a Sir Abertawe i nodi ardaloedd lle mae troseddau casineb yn fwy tebygol
- monitro bwlio mewn ysgolion sy'n ymwneud â hunaniaeth.

5.6 Gwaith Rhanbarthol a Phartneriaeth

Yn ogystal â gwaith y bartneriaeth y sonnir amdani trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol a sefydlwyd gennym ym mis Mawrth 2011 yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac mae'r aelodaeth wedi parhau i gynyddu. Mae ein cyfarfodydd yn cael eu hwyluso o hyd gan gydweithwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae aelodau'r grŵp yn gadarnhaol am y cyfle i rannu gwybodaeth ac arfer. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd trafodaethau am faterion gan gynnwys:

- troseddau casineb
- arolygon proffiliau gweithlu
- cydlynad cymunedol
- monitro cydraddoldeb
- gwahaniaethu ar sail oedran.

Bydd ein cyfarfod nesaf (ym mis Mehefin 2013) yn ystyried sut gall y grŵp ddatblygu a chydweithio ymhellach – rydym yn bwriadu datblygu cyfarfodydd thema ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod er mwyn canolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd gan aelodau'r grŵp.

5.7 Achrediad y Marc Enfys a Stonewall

Roedd y Marc Enfys yn achrediad a gymeradwywyd gan Ganolfan Ragoriaeth LGBT Cymru, a fu'n cydnabod bod sefydliad yn bodloni gofynion statudol ac arfer gorau wrth gynnwys y gymuned LGBT.

Dyfarnwyd yr achrediad yn gyntaf i Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr yn 2010 ac fe'i hadnewyddwyd ym mis Mai 2012. Ers hynny, mae'r Ganolfan Ragoriaeth LGBT a'r achrediad wedi darfod. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau allanol i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb LGBT. Rydym bellach yn aelodau o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr i ddatblygu ein gwaith ymhellach yn y maes hwn.

5.8 Gwaith gyda Phobl Hŷn

Cyflwynwyd Cynllun Datblygu'r Strategaeth Pobl Hŷn, gan gynnwys cefnogaeth i grŵp rheoli gwirfoddol Rhwydwaith 50+, tri fforwm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, cylchlythyr Rhwydwaith 50+, digwyddiad i nodi Diwrnod Pobl Hŷn a chyfarfod blynyddol y rhwydwaith.

Yn ogystal, cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghori ynglŷn â menter gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau, ag aelodau Rhwydwaith 50+ sy'n siarad Cymraeg. Roeddem hefyd yn parhau i fynychu cyfarfodydd fforwm Rhwydwaith LGBT Hŷn Cymru.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth yn y meysydd canlynol:

- Prosiect Eiriolaeth Annibynnol Diogelu Pobl Hŷn Age Cymru Bae Abertawe
- cyfres o Setiau Dysgu Actif Rhyng-genedlaethol gyda Sefydliad Beth Johnson
- digwyddiad gyda staff am waith rhyng-genedlaethol
- Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn ar gyfer Cynllun Comisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sefydlu cysylltiadau cadarnach rhwng y Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio (OPAN) a phobl hŷn.

Ymgynghorwyd â staff y cyngor ac aelodau'r cyhoedd ynglŷn â thrydydd cam y Strategaeth Pobl Hŷn, i gyd-fynd â gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys:

- grŵp ffocws rhanbarthol (gyda Chastell-nedd a Phen-y-bont ar Ogwr)
- gweithdy gydag adrannau'r cyngor
- nifer o grwpiau ffocws, gan gynnwys un gydag oedolion hŷn ag anabledau dysgu, ar y cyd â phrosiect Mencap, Lleisiau Hŷn
- datblygu holiadur ar gyfer Lleisiau Abertawe.

5.9 Rhaglen Heneiddio yn Dda yng Nghymru

Rydym wedi bod yn rhan o 3 gweithdy cenedlaethol a 2 ddigwyddiad am y rhaglen Heneiddio yn Dda yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol yn lleol ar thema datblygu cymunedau sy'n sensitif i dementia ac yn ystyriol o oedran.

5.10 Cydlyniad Cymunedol

Mae'r cynllun cyflwyno lleol ar gyfer Cydlyniad Cymunedol wedi cael ei ddrafftio, gan sefydlu grwpiau arweinyddiaeth a sicrwydd er mwyn sicrhau cynnydd a monitro.

5.11 Tlodi

Mae taclo tlodi'n flaenoriaeth allweddol i'r cyngor ac fel rhan o'r ymrwymiad i yrru'r agenda ymlaen, mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio Fforwm Tlodi. Er bod llawer o'r materion sy'n effeithio ar dlodi incwm y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol a hyd yn oed Llywodraeth Cymru (e.e. diwygiadau lles), mae'r Fforwm Tlodi wedi nodi themâu allweddol sy'n ymwneud â materion ehangach tlodi, sydd y tu mewn i gylch gorchwyl y cyngor a sefydliadau partner. Dyma'r themâu:

- Incwm a Dyledion
- Cefnogi Teuluoedd
- Pobl Nad Ydynt yn Gweithio
- Cyrhaeddiad Addysgol
- Anghydraddoldebau Iechyd.

Mae gan bob thema gynllun gweithredu sy'n manylu ar weithredoedd penodol a wneir yn lleol i fynd i'r afael ag achosion o dlodi yn ei ystyr ehangach.

Yn gysylltiedig â hyn mae pennu'r meysydd targed ac ymrwymiad y cabinet i ganolbwyntio adnoddau ar y meysydd hyn er mwyn culhau'r anghydraddoldeb rhwng y cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig (Adroddiad y Cabinet i'r Cyngor Chwefror 2013, eitem 10a).

Yn yr un adroddiad, mae'r Cabinet yn nodi,
“Mae'r Cabinet yn anghymeradwyo'n gryf weithredoedd cwmnïau benthyciadau diwrnod tâl, benthycwyr llog uchel a phrynwyr oportiwnistaidd sydd yn aml yn gallu gadael teuluoedd mewn amgylchiadau byw enbyd ac yn gaeth mewn cylch dyled peryglus. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb Credyd LASA a sefydliadau partner eraill i sefydlu cyfleusterau benthyca a gwasanaethau cefnogi gwell a mwy cynaliadwy ar gyfer pobl Abertawe. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch ddi-ildio i gyfyngu ar weithrediad a gweithredoedd unrhyw sefydliad sy'n ceisio manteisio ar y rhai mwyaf bregus yn ein dinas a'n sir.”

Mae hyn yn amlygu'r ymrwymiad i'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â sawl mater, gan gynnwys gweithgareddau cynyddol cwmnïau benthyciadau diwrnod talu sy'n targedu'r dinasyddion mwyaf bregus.

Fel rhan o fenter ar y cyd rhwng y cyngor a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cynhaliwyd seminar ym mis Chwefror 2013 i ystyried y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi. Defnyddiwyd astudiaeth achos ar sail addysg a chynhelir sesiwn ychwanegol ym mis Mai i archwilio'r cysylltiadau cynhenid ymhellach.

5.12 Diwygiadau Lles

Mae gweithgareddau presennol i liniaru effaith negyddol diwygiadau lles yn cynnwys:

- Seminarau hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer darparwyr cyngor yn y cyngor a'i sefydliadau partner.
- Seminarau diwygio lles aml-asiantaeth i ystyried effaith newidiadau penodol. Hyd yma mae hyn yn cynnwys y Dreth Ystafelloedd Gwely, Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a Digidol yn Ddiofyn. Trwy'r seminarau rydym hefyd wedi datblygu cyfeiriadur ar y cyd o ddarparwyr cyngor ar draws y sefydliad.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion trwy'r ymgyrch 'Mae Eich Budd-daliadau'n Newid'.
- Cydweithwyr Tai'n ysgrifennu at denantiaid unigol a gwneud ymweliadau unigol.

5.13 Monitro mewn ysgolion

Mae gwaith wedi dechrau rhwng cydweithwyr Mynediad i Wasanaethau ac Addysg ar ddatblygu protocol monitro ar gyfer ysgolion er mwyn cofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n ymwneud â hunaniaeth. Roedd y broses Digwyddiadau Hiliol flaenorol yn hen-ffasiwn o ran ei chynnwys a'i gweithredu fel ymarfer gweinyddol. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu mecanwaith hawdd ac effeithiol ar gyfer ysgolion, a fydd yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig.

5.14 Cynllunio busnes

Mae proses cynllunio busnes y cyngor yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol trwy becyn cymorth sy'n cynghori rheolwyr ar y prosesau a'r cynlluniau gweithredu sydd ar waith (e.e. amcanion cydraddoldeb a'r broses AEC); mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau'n cynnig cefnogaeth i reolwyr.

5.15 Hyfforddiant

Mae rhai o'r sesiynau hyfforddi ynglŷn â chydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer swyddogion y cyngor eleni wedi cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o fyddardod
- Sesiwn ragflas Iaith Arwyddion Prydain (IAP)
- Troseddau casineb.

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2012, cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddi fel rhan o'r Rhaglen Sefydlu Aelodau Etholedig newydd. Roedd y sesiynau'n cynnwys cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

5.16 Fersiwn hawdd ei darllen

Y llynedd cyhoeddwyd ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Mae swyddog o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau wedi cael hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth hawdd ei darllen, ac mae wedi cynghori cydweithwyr ynglŷn â dogfennau – megis arolwg ar gyfer plant a phobl ifanc.

5.17 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)

Trwy ein haelodaeth o bartneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at yr holl waith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd gyda gwybodaeth am ddefnydd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar draws yr awdurdod, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. (Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.)

Yn ystod 2012/13, gofynnwyd am gyfanswm o 40 o wahanol ieithoedd:

Y 5 iaith fwyaf poblogaidd (cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb)

1. Hwngareg
2. Bengaleg
3. Mandarin
4. Pwyleg
5. Iaith Arwyddion Prydain (IAP)

Y 5 iaith fwyaf poblogaidd (cyfieithu ar y pryd dros y ffôn)

1. Mandarin
2. Pwyleg
3. Bengaleg
4. Wrddw
5. Arabeg

Dylid nodi y gallai amllder gofyn am gyfieithu mewn unrhyw iaith fod yn ganlyniad i nifer bach o bobl (neu hyd yn oed un teulu) y mae angen lefel uchel o wasanaeth arnynt, e.e. gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Adran Tai.

Ar ôl nifer cynyddol o geisiadau am gyfieithu a chyfieithu ar y pryd wedi i ni ymaelodi â phartneriaeth GCDC, mae nifer yr achlysuron pan gysylltwyd â GCDC wedi sefydlogi ac mae'n weddol gyson trwy gydol y flwyddyn. Mae gwaith wedi dechrau ar drefnu cynllun peilot Cyfieithu Ar y Pryd Nawr ar gyfer ein canolfan gyswllt, lle bydd modd i bobl y mae eu hiaith gyntaf yn IAP dderbyn gwasanaeth cyfieithu ar y pryd uniongyrchol trwy we-ddolen fideo.

5.18 Cronfa Newid

Trwy'r Gronfa Newid, cafodd 22 o sefydliadau mawr a bach eu cefnogi'n ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws dinas a sir Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig, neu'n cynrychioli eu diddordebau.

5.19 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi darparu arian grant o 1 Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth(au) cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad i weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot.

Ceir manylion ffrydiau ariannu a chyfleoedd ariannu eraill gan Ddinas a Sir Abertawe yn: <http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=1912>

6. Sylwadau cloi

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ein CHW. Gwnaed cynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n Hamcanion Cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

Wrth i ni ganolbwyntio ar y flwyddyn o'n blaenau, byddwn yn parhau i adolygu ein hamcanion cydraddoldeb a gweithio i ddatblygu'r meysydd a gwmpesir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai lle mae angen rhagor o waith, er enghraifft ym meysydd gwybodaeth cydraddoldeb a chyflogaeth.

Atodiad 1

Amcanion Cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb – Ymgynghori a Chynnwys

Amcan Cydraddoldeb 1			
Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned			
Gweithredoedd cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Corfforaethol			
Rhoi Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys newydd ar waith	Mawrth 2014	<p>Bydd amlinelliad bras o'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn ond disgwylir i'r adolygiad blynyddol o'r strategaeth ddechrau ym mis Gorffennaf 2013.</p> <p>Panel y Dinasyddion Mae Llais Abertawe'n parhau'n offeryn defnyddio ar gyfer cynnwys adran drawstoriadol o boblogaeth Abertawe. Mae'r panel yn parhau i fod ar lefel 1250 ac yn cael canlyniadau 65% yn gyson. Roedd contract rheolwyr y panel yn targedu pobl dan 30 oed yn yr ymgyrch recriwtio ddiwethaf.</p> <p>Gweithredu ar-lein Mae arolygon yn parhau i gael eu defnyddio ar-lein fel dull ymgynghori. Ymysg enghreifftiau nodedig eleni</p>	Rhian Millar

		<p>oedd yr ymgynghoriad am yr ail safle i deithwyr, y cafwyd 3000 o ymatebion i'r arolwg amdano. Sbardunodd yr ymgynghoriad ynglŷn â Safleoedd Ymgeisiol y Cynllun Datblygu Lleol bron 41,000 o sylwadau, yn bennaf ar-lein ond hefyd 31 o ddeisebau â mwy na 9000 o lofnodion.</p> <p>Cynllun Integredig Sengl Mae'r CIS newydd bellach wedi disodli sawl strategaeth ac felly mae trefniadau newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer cynnwys dan y BGLI. Bydd grŵp cynnwys newydd y BGLI yn cwrdd ar ddechrau blwyddyn 2013-2014.</p> <p>Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ymgynghori a chynnwys wedi parhau, er enghraifft Arolwg Mawr yr Ysgolion a'r Sgwrs Fawr dan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Trwy'r trefniadau newydd, caiff trefniadau Partneriaeth Ymgynghori Abertawe eu hadolygu hefyd yn ystod 2013.</p>	
Adrannol			
Adfywio Economaidd a Chynllunio			

<p>Sefydlu grŵp swyddogion penodol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a'r Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol sy'n codi o'r ymgynghori ar y rhaglenni gwaith parhaus.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▫ Cyflwyno o leiaf 3 sesiwn grŵp swyddogion y flwyddyn; ▫ Defnyddio'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb fel fforwm i ymgynghori ar raglenni gwaith allweddol parhaus/sydd ar ddod; ▫ Sicrhau cyfathrebu ymatebol a pharhaus rhwng cynrychiolwyr o grwpiau swyddogion a rhanddeiliaid; ▫ Nodi materion cydraddoldeb ac ymatebion posib a fydd yn helpu i wella cyflwyno rhaglenni gwaith parhaus. 	<p>Mawrth 2013 (parhaus)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▫ Cynhaliwyd sesiwn gyntaf ar 10 Mai 2012 a ddarparodd drosolwg cyffredinol o elfennau allweddol y Ddeddf Cydraddoldeb a dealltwriaeth o swyddogaeth y grŵp swyddogion a sefydlwyd. Er bod y grŵp yn bwriadu cwrdd yn rheolaidd (cynhaliwyd sesiwn arall ar 12 Mehefin 2013), mewn gwirionedd mae nifer o gyfarfodydd unigol wedi cael eu trefnu yn lle hynny rhwng is-adrannau amrywiol a'r Tîm Mynediad i Wasanaethau ynglŷn ag amrywiaeth o faterion cydraddoldeb e.e. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, Cynllun Iaith Gymraeg. Mae canlyniadau'r cyfarfodydd hyn wedi cyfeirio amrywiaeth o raglenni gwaith megis paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r fenter Y Tu Hwnt i Frics a Morter. ▫ Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb wedi cael ei ddisodli'n raddol gan amrywiaeth o fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a sefydliadau cymunedol e.e. Grŵp Cydgysylltu 	<p>Phil Homes</p>
---	------------------------------	--	-------------------

		<p>Anabledau (GCA). Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth fwy penodol ac uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o fforymau e.e. yn ystod cyfnod ymgynghori Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI, aeth swyddog i sesiwn GCA gan arwain at adborth uniongyrchol gan y grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▫ Bu cyfathrebu parhaus rhwng y gwasanaeth a'r Tîm Mynediad i Wasanaethau sydd wedi sicrhau cysylltiad uniongyrchol â fforymau/cydweithwyr priodol yn ôl yr angen. Mae hyn hefyd wedi cynnwys darparu cyngor penodol ar raglenni gwaith sy'n fythol datblygu e.e. Ilunio Asesiad Effaith Cydraddoldeb pwrpasol gan gynnwys Asesiad Effaith ar y Gymuned. ▫ Mae nodi materion cydraddoldeb penodol wedi datblygu trwy gydol y flwyddyn. Mae sawl Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei gwmpasu'n gychwynnol ac yna'i gynnal e.e. i nodi darpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a menter Gweithffyrdd. Mae rhaglenni gwaith eraill yn cynnwys 	
--	--	---	--

		gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau wrth lunio brîff ar gyfer cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer pecyn cymorth i ystyried yr iaith Gymraeg wrth ddatblygu'r CDLI ac wrth wneud penderfyniadau.	
Diwylliant a Thwristiaeth			
Cysylltu â fforymau/grwpiau trawsryweddol i drafod datblygiadau'r gwasanaeth	Mawrth 2013	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wrth wneud cais ar gyfer y marc Enfys yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, gwnaed cysylltiadau â fforymau a grwpiau trawsryweddol. Roedd hyn yn cynnwys priif swyddog y Marc Enfys yn ymuno â fforwm LGBT ar-lein a chasglu adborth defnyddiol ynglŷn â materion mynediad. Cafodd hwn ei gynnwys yn y cais Marc Enfys a'r Arweiniad Trawsryweddol.</p> <p>Trwy'r cysylltiadau hyn, roedd aelod o'r fforwm yn ddigon caredig i gynnal rhai ymweliadau dirgel â chanolfannau hamdden a rhannu ei ganfyddiadau. Cafodd y rhain hefyd eu cynnwys yn y cynllun gweithredu Marc Enfys.</p> <p>Yn bennaf, roedd yr adborth a</p>	Robert Bowen/Tracy Williams

		<p>dderbyniwyd yn ymwneud â'r angen am ymwybyddiaeth staff, sensitifrwydd, preifatrwydd, bod yn glir am ba gyfleusterau oedd ar gael a gwneud i bobl deimlo bod croeso ganddynt, yn union fel gydag unrhyw gwsmer arall.</p> <p>Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd da yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, mae'r swyddog arweiniol bellach wedi gadael. Yn ogystal, gyda chau'r ganolfan ragoriaeth LGBT/Marc Enfys, nid yw'n debygol mwyach y caiff hyn ei gyflwyno ar draws yr adran hamdden.</p>	
Yn dilyn ymgynghoriad, adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau er mwyn darparu gweithgareddau ychwanegol ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth sydd o ddiddordeb i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (BME).	Mawrth 2013	<p>Bwrw Ymlaen</p> <p>Ataliwyd hyn gan brinder staff yn 2012-13.</p> <p>Fodd bynnag, fel a drafodwyd yn y Gweithgor Cydraddoldeb diwethaf (Ebrill 13), efallai bydd cyfle i ymgynghori â'r fforwm BME corfforaethol yn 2013-14.</p>	Ellie Moore/Gweithgor Cydraddoldeb Diwylliant a Thwristiaeth
Sefydlu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer digwyddiadau mawr a pharhau i ymgynghori â SAFE a	Mawrth 2013	<p>Ar waith</p> <p>Caiff y digwyddiadau pwysicaf eu</p>	John Birmingham

Fforwm Anableddau Abertawe		<p>hasesu am effaith cydraddoldeb wrth iddynt gael eu cynnal, gan ddechrau gyda Gwledd y Gaeaf ar y Glannau ym mis Tachwedd 2012 (wedi'i gwblhau).</p> <p>Mae asesu cychwynnol eisoes wedi dangos bod angen cynnal mwy o ymchwil i bwy sy'n ymweld â'r digwyddiadau hyn. Caiff hyn ei drefnu gyda'r Tîm Marchnata.</p> <p>Mae digwyddiadau'n parhau i ymgynghori â SAFE, yn arbennig ynglŷn â digwyddiadau mawr.</p> <p>Caiff rhagor o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb eu cynnal yn 2013-14 o ddigwyddiadau mawr megis y Sioe Awyr a Ras 10k Bae Abertawe.</p>	
Ymgynghori â fforymau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) i nodi unrhyw rwystrau posib i gyfranogi.	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau fel rhan o gamau gweithredu LGBT eraill yn y ddogfen hon.	Robert Bowen
Tai			
Datblygu, drafftio, hysbysebu ac ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol wedi'i diweddarau.	Ebrill 2012 (parhaus)	Cymeradwywyd yr SCTLI gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2011. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd i roi'r cynllun gweithredu ar waith, er	Lynda Grove

		enghraifft i gynyddu aelodaeth grwpiau a chyflwyno cyfarfod rhwydweithio ddwywaith y flwyddyn. Caiff yr SCTLI ei hadolygu yn 2015.	
--	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb – Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Amcan Cydraddoldeb 2			
Cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth well wedi'i diweddarau			
Gweithredoedd cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Corfforaethol			
Adolygu'r deunydd a'r adnoddau hyfforddi sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb a hyfforddiant AEC	Ebrill 2013	Mae'r holl hyfforddiant ac adnoddau sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC wedi cael ei gwblhau.	Khan Prince
Ystyried datblygiadau darpariaeth hyfforddi e-ddysgu/dysgu cyfunol sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC	Ebrill 2013	Mae modiwlau e-ddysgu wedi cael eu creu ynglŷn â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac AEC er mwyn darparu dysgu cyfunol.	Khan Prince
I ddechrau, bydd staff allweddol - ond, yn y pen draw, y staff cyfan - yn derbyn hyfforddiant gorfodol am Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Ebrill 2013	Mae staff allweddol wedi derbyn hyfforddiant am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol ar hyn o bryd ond cynigir ei wneud yn orfodol dan y Polisi Datblygu a Hyfforddi newydd pan gaiff hwn ei roi ar waith i gyd-fynd ag amodau a thelerau newydd a Statws Sengl.	Khan Prince

Bydd pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gweithdrefnau AEC (lle bo hynny'n briodol)	Ebrill 2013	Parhaus oherwydd heriau ynglŷn ag adnoddau a'r agenda. Mae'n bwysig nodi y darparwyd nifer mawr o gyflwyniadau cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer rheolwyr ar draws y sefydliad yn ystod 2011-12.	Khan Prince
Sicrhau bod pob cwrs hyfforddiant, gan gynnwys y cwrs sefydlu corfforaethol, yn adlewyrchu'r rheoliadau cydraddoldeb a'r arfer gorau diweddaraf	Ebrill 2013	Mae pob cwrs hyfforddiant wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r rheoliadau cydraddoldeb a'r arfer gorau diweddaraf	Khan Prince
Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob cwrs hyfforddiant corfforaethol yn gywir	Ebrill 2013	Caiff pob cwrs hyfforddiant corfforaethol ei fonitro a rhoddir yr holl wybodaeth o'r rhain i mewn i gronfa ddata. Mae hyn yn ein galluogi i lunio ystadegau cywir am gyrsiau y mae gweithwyr DASA yn mynd iddynt.	Khan Prince
Adolygu canllawiau Gwasanaethau Cwsmeriaid (o ran y rhannau hynny'n sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth) a hyrwyddo'r ddau eto yn y cyngor ac yn allanol	Ebrill 2013	Ymgynghori ynghylch safonau gwasanaethau corfforaethol a chytuno arnynt. Bwriedir hyrwyddo safonau i'r staff a'r cyhoedd o fis Gorffennaf 2013.	Deborah Reed
Datblygu'r wybodaeth a'r data sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchodedig a chadw darlun demograffig cadarn o ddinas a sir Abertawe	Ebrill 2013 ac yn ei adolygu'n flynyddol	Mae adnoddau gwybodaeth a data'r cyngor ar gyfer dadansoddi nodweddion gwarchodedig yn ninas a sir Abertawe wedi datblygu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig ychwanegol wedi'i	Steve King

		diweddarau ar we-dudalennau'r cyngor, gan gynnwys y data cymdeithasol-ddemograffig a ddarparwyd gan <u>Gyfrifiad 2011</u> (sy'n ffynhonnell helaeth bosib), data proffiliau a dangosyddion a gafwyd yn yr <u>Asesiad Anghenion Strategol</u> integredig gyntaf, a'r fersiynau diweddaraf o <u>broffiliau ward</u> Abertawe.	
Gwasanaethau Cymdeithasol			
Cyflwyno'r Rhaglen Ddysgu Cynhwysiad Cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth staff ar draws DASA o'r materion sy'n wynebu unigolion a grwpiau sy'n profi dieithrio oherwydd tlodi incwm, gwasanaeth a chyfranogi	Dechrau mis Ebrill 2012	<p>Caiff yr hyfforddiant hwn ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r ymrwymiad a wnaed gan y Cabinet i ganolbwyntio adnoddau ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Abertawe. Mae wardiau Townhill a Phenderi bellach yn Ardaloedd Targed T1 ac mae'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf eraill yn T2. Gwnaed yr ymrwymiad er mwyn rhoi ffocws i flaenoriaeth gorfforaethol Taclo Tlodi.</p> <p>Caiff yr hyfforddiant Taclo Tlodi yn Abertawe diwygiedig ei dreialu yn ardal Townhill yn Abertawe ym mis Mehefin/Gorffennaf 2013. Y targed yw hyfforddi 80 aelod o staff mewn 4 wythnos.</p>	Karen Grunhut

Darparu llinell gyngor hawliau lles am 3 diwrnod yr wythnos i gefnogi staff a sefydliadau partner DASA wrth gyd-drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl diwygio'r system lles	Yn flynyddol – wedi dechrau mis Ebrill 2012	Y targed ar gyfer 2012/13 oedd darparu 130 o sesiynau llinellau cyngori. Oherwydd y galw cynyddol am y cyngor, penderfynwyd hanner ffordd trwy'r flwyddyn i gynyddu'r ddarpariaeth o 3 sesiwn yr wythnos i 6, felly cynhaliwyd 244 o sesiynau llinell cyngori yn 2012/13 gyda 691 o ymholiadau'n cael eu trin erbyn diwedd y cyfnod cau.	Karen Grunhut
Parhau â'r rhaglen o fforymau anffurfiol i staff yn ystod yr awr ginio i gynyddu'r ymwybyddiaeth o holl faterion cydraddoldeb	O leiaf dwywaith y flwyddyn	Mae rhaglen newydd o sesiynau amser cinio i gynyddu ymwybyddiaeth o nodweddion gwarchoddedig yn cael eu llunio	Heather Hughes
Ymchwilio i'r cyfleoedd i gysylltu â mentrau hyfforddi corfforaethol a chynllunio a datblygu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n briodol i anghenion staff y Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhagfyr 2012	Mae blaenoriaethau eraill wedi atal cynnydd ond bydd y rhain yn derbyn sylw erbyn mis Mawrth 2014	Hywel Jones
Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)			
Briffio ar gyfer Rheolwyr	Ebrill 2012	Rhwyng mis Chwefror 2012 a mis Rhagfyr 2012, aeth 609 o weithwyr ar hyfforddiant cydraddoldeb. Mae hyn yn cyfateb i 94% o weithwyr GAEC. Cedwir lleoedd ar y cwrs i'r 6% sy'n weddill yn y dyfodol agos.	Wedi'i gydlynu gan Emma Lewis ar y cyd â holl reolwyr GAEC
Holl weithwyr GAEC yn cael hyfforddiant wedi'i ddiweddarau	Mawrth 2013		Wedi'i gydlynu gan Emma Lewis ar y cyd â holl reolwyr GAEC
Amgylchedd			
Datblygu canllawiau ar gyfer staff	Yn cael ei	Canllawiau syml wedi'u llunio i'w briffio	Bob Fenwick/Paul Griffiths

toiledau cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion hunaniaeth rhyw	adolygu bob chwe mis	cyn bo hir.	
Diwylliant a Thwristiaeth			
Sicrhau bod holl staff gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o bolisi bwydo ar y fron y cyngor.	Medi 2012	Wedi'i gwblhau Lledaenwyd cynllun bwydo ar y fron Llywodraeth Cymru trwy'r Gweithgor Cydraddoldeb i wasanaethau rheng flaen. Adroddodd pob cynrychiolydd yn ôl i'r grŵp bod polisi'r cynllun wedi cael ei fabwysiadu gan holl wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth	Robert Bowen
Datblygu a chyflwyno arweiniad ar drawsrywiaeth ar gyfer holl wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth. I fod yn berthnasol hefyd i staff gwirfoddol adeiladu cymunedol.	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau Mae'r Adran Diwylliant a Thwristiaeth wedi llunio dogfen arweiniol am drawsryweddoldeb (gyda chymorth y Ganolfan Ragoriaeth LGBT), a ddefnyddir i wneud y staff yn ymwybodol o'r angen i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sensitif a hygyrch. Cyflwynwyd yr arweiniad trwy'r Gweithgor Cydraddoldeb i wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth ac fe'i trafodwyd mewn sesiynau briffio timau.	Robert Bowen

		<p>Mae'r arweiniad hefyd wedi cael ei rannu ag awdurdod lleol arall i'w helpu i ddatblygu arweiniad tebyg.</p> <p>Mae angen rhannu'r arweiniad bellach ag Adeiladu Cymunedol.</p>	
Tai ac Adfywio Cymunedau			
Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith staff yn y llyfryn sefydlu ar-lein a'r llawlyfr gwybodaeth gwasanaethau i gwsmeriaid	Ebrill 2012 (parhaus)	Rhestr o siaradwyr Cymraeg wedi'i diweddarau fis Mawrth 13. Mae Taflen Wybodaeth Tîm y Staff (Ebrill '13) yn cynnwys erthygl sy'n hyrwyddo cwrs Cymraeg ynglŷn â chronfeydd e-ddysgu ac mae'n rhoi manylion cyrsiau dysgu Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae Llawlyfr Gwybodaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu dolenni i'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Lynda Grove
Parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer staff cyfan Tai ac Adfywio Cymunedol gan ei ddiweddarau a'i fonitro'n rheolaidd	Ebrill 2012 (parhaus, yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol)	Mae staff yn parhau i fynd i gyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb er mwyn diweddarau eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol.	Lynda Grove/pob rheolwr

Amcanion Cydraddoldeb – Adnoddau Dynol

Amcan Cydraddoldeb 3

Adolygu holl bolisiau AD, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Adolygu polisïau AD trwy'r Gweithgor Undebau Llafur	Medi 2012	Mae'r rhan fwyaf o bolisïau wedi'u hadolygu.	Steve Rees
Llunio llawlyfr staff ar y we a fydd yn cynnwys polisïau AD, amodau a thelerau, a gwybodaeth i staff ynglŷn â'r Ddeddf Cydraddoldeb	Medi 2012	Caiff hwn ei gyhoeddi pan roddir Statws Sengl ar waith	Martin Halmkan
Wedi hynny, adolygu polisïau AD yn flynyddol	Medi 2013	Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.	Steve Rees
Briffio rheolwyr am bolisïau AD allweddol	Medi 2012	I'w gyflawni yn hydref 2013.	Steve Rees

Amcan Cydraddoldeb 4			
Cyrraedd Lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cyflwyno cais ar ran DASA am asesiad yn erbyn y Lefel Aur	Gorffennaf 2012	Wedi'i aildrefnu ar gyfer 2014.	Heather Swinnerton
Cyflwyno arolwg agwedd/lles gweithwyr	Mawrth 2013	Wedi'i aildrefnu ar gyfer 2014.	GlaLI
Adolygu'r polisi cyffuriau ac alcohol	Gorffennaf 2012	Wedi'i gwblhau	GlaLI
Mabwysiadu gwerthoedd craidd ar gyfer iechyd a lles gweithwyr	Gorffennaf 2012	Angen adolygiad arall gan y TRhC.	GlaLI/TRhC
Llunio polisi peiriannau bwyd iach a sicrhau bod peiriannau bwyd iach yn y prif adeiladau	Gorffennaf 2012	Digon o beiriannau bwyd iach yn eu lle.	GlaLI/TRhC

Amcan Cydraddoldeb 5			
Sicrhau bod cyfle gan bawb yn y gymuned geisio am swydd gyda'r cyngor			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Ennill achrediad y symbol anabledd	Ebrill 2013	Arolwg Data Cydraddoldeb Staff wedi'i	Steve Rees

(Cynllun Tic Dwbl)		gwblhau a bydd cais am achrediad yn cael ei gyflwyno ddiwedd 2013.	
--------------------	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb 6			
Creu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb a fydd yn ymdrin ag unrhyw wahaniaethau cyflog presennol rhwng y rhywiau ynghyd ag amodau a thelerau ariannol cyflogaeth tryloyw sydd wedi'u cydweddu			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Parhau i ymgynghori ag undebau llafur er mwyn datblygu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb	Medi 2012	Gwnaed cynnydd da gyda'r undebau llafur. Dyddiad rhoi ar waith arfaethedig yw hydref 2013 erbyn hyn.	Patrick Arran
Parhau i ymgynghori â'r undebau llafur i gydweddu a moderneiddio amodau a thelerau	Medi 2012	Gwnaed cynnydd da gyda'r undebau llafur. Dyddiad rhoi ar waith arfaethedig yw hydref 2013 erbyn hyn.	Patrick Arran

Amcan Cydraddoldeb 7			
Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth am Gyflogaeth			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Datblygu ein system ISIS AD i gofnodi manylion y nodweddion gwarchodedig	Ebrill 2013	Gwaith wedi'i aildrefnu i'w gyflawni yn ddiweddarach yn 2013.	Steve Rees
Cynnal arolwg staff i gasglu data am y nodweddion gwarchodedig a sgilau iaith	Medi 2012	Wedi'i gwblhau.	Steve Rees
Cyhoeddi'r wybodaeth am gyflogaeth yn unol â'n dyletswydd	Mawrth 2013	Y dyddiad cau bellach yw 31 Mawrth 2014.	Steve Rees/Euros Owen
Dadansoddi'r data uchod i nodi materion allweddol i'r awdurdod	Gorffennaf 2013	I'w gyflawni bellach yn ddiweddarach yn 2013/14.	Steve Rees

Amcan Cydraddoldeb – Mynediad i Wasanaethau

Amcan Cydraddoldeb 8			
Gwella mynediad i wasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl anabl/fyddar			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Recriwtio Gweithiwr Cefnogi Polisi a Datblygu Gwasanaeth dynodedig (ar gyfer pobl a grwpiau B/byddar) (secondiad rhan-amser - contract 2 flynedd)	Medi 2012	Roedd ein hymgais i recriwtio rhywun i'r swydd hon ar secondiad yn aflwyddiannus; fodd bynnag, rhoddwyd man cyswllt dynodedig ar waith yn yr awdurdod ar gyfer y gymuned fyddar a chynhaliwyd sesiynau cydgysylltu rheolaidd gyda Chlwb Pobl Fyddar Abertawe.	Euros Owen
Nodi materion mynediad penodol i bobl B/byddar yng Nghanolfan Gyswllt y cyngor.	Mawrth 2013	Cynhaliwyd ymchwil i'r opsiynau ar gyfer cyfieithu IAP ar y pryd o bell yn y Ganolfan Gyswllt ac mae hyn wedi cael ei drafod â'r Clwb Pobl Fyddar. Mae trefniadau (gan gynnwys materion technegol) yn cael eu gwneud i dreialu Cyfieithu ar y Pryd Nawr yn 2013-14.	Euros Owen a Michelle Regan

Amcanion Cydraddoldeb – Addysg

Amcan Cydraddoldeb 9			
Gwella perfformiad Dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig ar lefel TGAU			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiafystal â'u cyfoedion	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr	Yn 2012, roedd perfformiad plant o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru ar y Dangosydd Cyfnod	Diane Vanstone

	hydref	<p>Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, sef +4.0% yn uwch.</p> <p>Yn 2012, ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3, roedd perfformiad plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru ar y Dangosydd Pynciau Craidd, sef 4.1% +8.8% yn uwch.</p> <p>Yn 2012, roedd perfformiad pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru ar y Dangosydd Pynciau Craidd, sef +7.7% yn uwch, Trothwy Lefel 2i +7.6% a Throthwy Lefel 2 +11.4%.</p>	
Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshi yn cyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion	Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref	<p>Yn 2012, roedd perfformiad plant o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshi yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru ar y Dangosydd Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, sef +5.9% yn uwch.</p> <p>Yn 2012, ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3, roedd perfformiad plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru ar y Dangosydd Pynciau Craidd, sef +14.5% yn uwch.</p>	Diane Vanstone

		Yn 2012, roedd perfformiad pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn well na'u holl gyfoedion yn Abertawe a Chymru a y Dangosydd Pynciau Craidd, sef +2.5% yn uwch a Throthwy Lefel 2 +12.5% .	
--	--	---	--

Amcan Cydraddoldeb 10			
Cau'r bwllch perfformiad rhwng bechgyn a merched mewn cyrhaeddiad addysgol.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cynnal tueddiadau gwellhaol wrth asesu bechgyn a merched yn CA2 a CA3	Gorffennaf 2012	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ddau ddangosydd yn dangos tuedd sylweddol ar i fyny. DPC CA2 – canlyniadau wedi cynyddu 10.1% rhwng 2008 a 2012, gyda chanlyniadau 2012 wedi cynyddu 2.8% o'u cymharu â 2011. DPC CA3 – canlyniadau wedi cynyddu 14.0% rhwng 2008 a 2012, gyda chanlyniadau 2012 wedi cynyddu 4.9% o'u cymharu â 2011. 	Roger Davies
Cau'r bwllch rhwng perfformiad bechgyn a merched	Gorffennaf 2012	<ul style="list-style-type: none"> DPC CA2 ar gyfer y bwllch rhwng y rhywiau – wedi gwella ychydig rhwng 2008 a 2012 (7.7% ar gyfartaledd), gyda'r bwllch yn 2012 	Roger Davies

		<p>yn 0.7% yn well na 2011. Mae bechgyn a merched yn dangos gwelliant tebyg ers 2008 (mae gwelliant y bechgyn ychydig yn well na'r merched, ond nid yn sylweddol well).</p> <ul style="list-style-type: none"> • DPC CA3 ar gyfer y bwlch rhwng y rhywiau – tuedd waethgol sylweddol rhwng 2008 a 2013, yn 9.2% ar gyfartaledd, gyda'r bwlch uchaf o 12.8% yn 2011. Ond ychydig o welliant yn 2012 i 10.1%. • Mae bechgyn a merched yn dangos gwelliant sylweddol er 2008, ond mae canlyniadau'r merched wedi gwella'n gyflymach na rhai'r bechgyn (1.2%). 	
--	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb 11			
Gwella perfformiad addysgol plant Sipsiwn a Theithwyr			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Parhau i feddwl am ffyrdd o wella cyfraddau presenoldeb plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd er mwyn gwella'u cyrhaeddiad	Blynyddol	Rydym wedi atgyfnerthu ein cysylltiadau â'r ysgolion cyfun uwchradd a bellach yn gweithio mewn partneriaeth agosach i gyflwyno cymwysterau lefel 1 a 2 mewn Sgiliau Hanfodol Cymru gan obeithio cyflwyno cymwysterau TGAU yn y flwyddyn	Ian James

		<p>academaidd newydd (mae nifer bach o ddisgyblion yn sefyll TGAU Saesneg ac A.Gr. yn arholiadau Blwyddyn 11 yr haf).</p> <p>Rydym wedi cynyddu nifer yr oriau y caiff pobl ifanc eu haddysgu, yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol, a byddwn yn parhau i wneud hyn a chaiff hyn ei ategu gan ragor o achrediad academaidd a galwedigaethol.</p> <p>Byddwn yn treialu cymwysterau BTEC newydd a byddwn hefyd yn sefydlu grwpiau penodol i gymryd rhan yng Ngwobrau Dug Caeredin. Caiff yr holl weithgareddau allgyrsiol arfaethedig eu hachredu trwy'r Brifysgol Plant a Phobl Ifanc yn unol â gofynion newydd y Gwasanaethau Pobl Ifanc.</p> <p>Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein cynnig am £10k gan Bartneriaeth Llwybrau Dysgu 14-19 Abertawe a fydd, ar y cyd â'r Grant Sipsiwn/Teithwyr, yn cefnogi gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynd i addysg y prif ffrwd yn CA3 a CA4.</p> <p>Byddwn yn defnyddio rhan o'r cynnig i barhau i weithio gyda YMCA</p>	
--	--	--	--

		<p>Abertawe a fydd yn darparu cyfleoedd dysgu ac achrediad ychwanegol i'r bobl ifanc. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys sesiynau wedi'u hachredu gan Agored Cymru mewn ffitrwydd, celf, troelli a chyfranogi mewn fforymau ieuenctid.</p> <p>Bydd y cynigion hyn hefyd yn cefnogi cyrsiau achrededig yn Down2Earth, sy'n helpu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc am ADCDF. Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys technegau goroesi yn y gwyllt ac elfen o weithgareddau awyr agored. Caiff y rhaglen ei hachredu trwy Agored Cymru.</p> <p>Byddwn yn cefnogi'r bobl ifanc sy'n gadael ar ddiwedd Blwyddyn 11 trwy weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a thîm allgymorth ôl 16 Abertawe. Bydd hyn yn eu helpu i drosglwyddo'n hwylus i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach a bydd yn darparu cefnogaeth barhaus nes bod yr oedolion ifanc wedi ymsefydlu.</p> <p>Mae TES Abertawe hefyd wedi cyflwyno cynnig ar y cyd â TES Sir</p>	
--	--	--	--

		<p>Benfro ac Amgueddfa Abertawe i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ymchwilio i'w gwreiddiau. Bydd eu hymchwil a'u canfyddiadau'n rhan o arddangosfa yn yr amgueddfa a byddant yn adnodd dysgu i genedlaethau i ddod.</p> <p>Byddwn yn parhau i gysylltu â'r prosiect bws Chwarae ar Olwynion i ddarparu profiadau chwarae'r Blynnyddoedd Cynnar a chynnwys plant Sipsiwn a Theithwyr o oed cynradd sy'n byw ar y safle neu sy'n ymweld am gyfnod byr. Rydym newydd ehangu'r ddarpariaeth hon i weithio ar draws dau o'r safleoedd yn Abertawe.</p> <p>Rydym wrthi'n ehangu nifer presennol ein staff i ymateb ymhellach i bryderon ynglŷn â phresenoldeb disgyblion cynradd ac uwchradd. Yn ei dro, bydd hyn hefyd yn datblygu'r elfen gefnogaeth i'r tîm fel y gellir ehangu darpariaeth i'r dysgwyr.</p>	
--	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb 12			
Gwella ymwybyddiaeth yr holl blant a phobl ifanc o wybodaeth allweddol am dueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Sicrhau y caiff ysgolion eu cyfeirio i arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft darpariaeth gwnsela, arfer da o ran materion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT).	Wrth roi arweiniad	Dosbarthwyd yr holl arweiniad gan Lywodraeth Cymru i ysgolion trwy e-bost a'i osod ar dudalen benodol gwefan mewnwyd y cyngor.	Rhodri Jones

Amcan Cydraddoldeb 13			
Gwella mynediad disgyblion ag anabledd corfforol i addysg.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Parhau i wella isadeiledd mewn ysgolion er mwyn gwella hygyrchedd	Ebrill 2013	<i>Cydymffurfio Statudol – Deddf Cydraddoldeb</i> Mae'r Rhaglen Cynnal Cyfalaf gymeradwy yn cynnwys yr adolygiad parhaus o strategaeth yr awdurdod gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â Grwpiau Mynediad Lleol, gan arwain, yn ei thro, at flaenoriaethu adeiladau o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer 2013/14.	Brian Roles

		<p>Fodd bynnag, mae'n ofyniad i bob cynllun cyfalaf mawr gynnwys datganiad mynediad yn y cais cynllunio, gan ymgorffori'r mesurau priodol yn y dyluniad manwl.</p> <p>Bydd cynlluniau sy'n ymwneud ag adeiladau ysgol yn ystyried (fel y rhagnodir gan yr Is-adran Rheoli Adeiladu) elfen o wella hygyrchedd.</p>	
Lobio dros ailosod y cyllid cyfalaf Mân Addasiadau i ddarparu ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion	Ebrill 2013	Cymeradwywyd yr holl geisiadau am fân addasiadau i ddiwallu anghenion disgyblion a'u rhoi ar waith o fewn cyllidebau presennol yn ystod 2012/13. Caiff adroddiad ei anfon i'r PFM nesaf, gan amlygu'r angen am gyllideb ddynodedig ar gyfer 2014/15 gan nad oes modd parhau i gynnwys y fath gostau.	Brian Roles

Amcan Cydraddoldeb 14 – Sylwer bod hwn yn Amcan Partneriaeth sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac felly, mae'r gosodiad yn wahanol.			
Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tloedi, trwy wella deilliannau'r tlotaf.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Lleihau'r anghydraddoldebau yn	Mawrth 2014	Mae lleihau anghydraddoldebau	Jo Portwood

<p>neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tloti, trwy wella deilliannau'r tlotaf.</p>		<p>iechyd yn ymrwymiad allweddol gan sefydliadau partner yn Abertawe fel rhan o'r dynodiad fel dinas Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn, rhoddir rhaglen cyflymu gweithredu ar waith i leihau anghydraddoldebau iechyd yn Abertawe, wedi'i chefnogi gan drefniant partneriaeth â thîm Marmot, awdurdod cydnabyddedig yn y maes hwn. Yn dilyn adolygiad Lloegr o Anghydraddoldebau Iechyd, Cymdeithas Deg, Bywydau Iach, canfu tîm Marmot fod anghydraddoldebau iechyd yn datblygu oherwydd anghydraddoldebau yn y gymdeithas – yr amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt. Argymhellwyd chwe amcan polisi i leihau anghydraddoldebau iechyd - rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd, galluogi plant a phobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu galluoedd a'u rheolaeth dros eu bywydau, creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb, sicrhau safon byw iach i bawb, creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy ac atgyfnerthu swyddogaeth ac effaith</p>	
---	--	---	--

		<p>atal afiechyd. Yn Abertawe, nodwyd amcan polisi un - rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn - fel un o'r blaenoriaethau uchaf yn y rhaglen Dinas Iach oherwydd rôl sylweddol ymyrryd yn gynnar wrth atal afiechyd ac anghydraddoldebau mewn blynyddoedd diweddarach.</p> <p>Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe. Mae hawliad Dechrau'n Deg i bob plentyn yn seiliedig ar bedair cydran allweddol: gofal plant, ymweliadau iechyd dwys, cefnogaeth sgiliau hanfodol i rieni a chefnogaeth gofal cymdeithasol. Diben y rhaglen yw darparu pecyn cefnogaeth wedi'i dargedu i ddatblygu a chynnal datblygiad plant, eu paratoi ar gyfer yr ysgol a dysgu a gwella sgiliau magu plant a chefnogaeth ar gyfer datblygiad plant. Er bod y rhaglen yn ei dyddiau cynnar, dengys arwyddion cynnar fod yr ymagwedd wedi cael peth budd i blant sy'n gymwys ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg e.e. cyfradd gyflymach o ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol. O fis Ebrill</p>	
--	--	---	--

		<p>2014, rhagwelir y bydd y rhaglen yn cyrraedd 1 ym mhob 4 plentyn 0-3 oed sy'n byw yn ninas a sir Abertawe. Fel rhan o'r rhaglen Dinas Iach, mae dangosydd parodrwydd ar gyfer yr ysgol yn cael ei ddatblygu gyda phenaethiaid er mwyn sicrhau gwaelodlin cadarn i gofnodi cerrig milltir cynnydd yn natblygiad plant a monitro unrhyw anghydraddoldebau o ran amddifadedd.</p> <p>Er nad yw perfformiad plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PYDd) yn parhau i fod cystal â'r plant nad ydynt yn derbyn PYDd, dengys data cyrhaeddiad addysgol fod lefelau cyrhaeddiad cymharol plant sy'n derbyn PYDd wedi gwella a bod y bwllch ar draws yr holl gyfnodau allweddol wedi culhau. Mae ymchwil wedi dangos bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn addysg brif ffrwd yn fwy tebygol o fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Yn ogystal, mae ymchwil wedi dangos bod plant ag anghenion addysgol arbennig a hefyd y rhai sy'n derbyn PYDd fwyaf tebygol o dangyflawni. Mae'r Gwasanaeth</p>	
--	--	--	--

		<p>Mynediad i Addysg yn darparu pecyn cefnogaeth cynhwysfawr gyda'r nod o gynnwys pob dysgwr ag anghenion ychwanegol, llawer ohonynt mewn addysg brif ffrwd. Rhoddwyd nifer o ymyraethau ar waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn deilliannau addysgol, megis rhaglenni llythrennedd a rhifedd, rhaglenni dal i fyny a gwaith i gefnogi iechyd emosiynol megis arfer adferol a chwmsela yn yr ysgol. Yn ogystal, ceir grantiau penodol gan LIC e.e. mae grant amddifadedd ysgolion yn cael ei dargedu'n benodol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn codi dyheadau a chyrrhaeddiad. Er bod sawl ymyrraeth effeithiol eisoes ar waith i leihau anghydraddoldeb mewn deilliannau addysgol ac er bod cynnydd wedi cael ei wneud wrth gulhau'r bwloch, mae heriau'n parhau i ddangos effaith achosol ymyraethau penodol ar ddeilliannau dysgwyr unigol.</p> <p>Sefydlwyd Fforwm Tlodi Plant y Prif Weithredwr yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd gydlynol at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb plant ar</p>	
--	--	--	--

		draws yr awdurdod lleol. Mae'r fforwm wedi sefydlu 5 grŵp tasg a gorffen gyda chynlluniau gweithredu cysylltiedig sy'n ymwneud â gwaith a heb fod mewn gwaith, incwm a dyled, addysg, iechyd a chefnogi teuluoedd. Er bod gwaith y fforwm yn cael ei ddatblygu o hyd, mae'n ganolbwynt i archwilio rhai o achosion tlodi ac anghydraddoldeb (ac atebion posib iddynt) sy'n torri ar draws gwasanaethau (a strwythurau) allweddol, megis addysg ac iechyd, y mae angen ymagwedd bartneriaeth arno.	
--	--	---	--

Amcan Cydraddoldeb – Tai

Amcan Cydraddoldeb 15			
Gwella mynediad cwsmeriaid i'r Gwasanaethau Tai			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cyrraedd Safon Rheoli Tai Cymru (SRhTC)	Ymgynghori â thenantiaid, mis Awst 2011 - Gweithio tuag at	Mae'r cynnig wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ond oherwydd newidiadau i'w gweithdrefnau, mae wedi cael ei ailgyflwyno i Sefydliad Tai	D Samuel

	gyflawni'r safon erbyn mis Awst 2012	Siartredig Cymru. Pan rydym yn gwybod y canlyniad, byddwn yn hysbysu'r tenantiaid ac yn ymgynghori ynglŷn â'r targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf.	
Datblygu Strategaeth Rhent	Mehefin 2012	Mae effaith a goblygiadau'r newidiadau i'r system les wedi cyfyngu'n ddifrifol ar yr amser sydd ar gael i ddatblygu'r Strategaeth Rhent. Fodd bynnag, bwriedir o hyd i lunio Strategaeth Rhent a chaiff y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau lles eu hadlewyrchu yn y ddogfen.	J Williams/S White
Rhoi'r wefan cyngor tai newydd ar waith	Medi 2012	Mae'r wefan bellach ar waith ac yn cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd i adrannau/asiantaethau amrywiol.	Steve Porter
Rhoi'r gwasanaeth ceisiadau ffôn ar waith yn llwyr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Digartrefedd a cheisiadau rhestr aros ar gyfer cwsmeriaid y mae'n well ganddynt/y mae angen iddynt gael mynediad i wasanaethau dros y ffôn.	Medi 2012	Mae'r gwasanaeth ffôn wedi cael ei roi ar waith yn llawn ac erbyn hyn dyma'r brif ffordd o wneud cais am dai ac am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.	Steve Porter/Mark Wade
Datblygu Strategaeth Tai Lleiafrifoedd Du ac Ethnig (BME) Leol, ymgynghori yn ei chylch a'i llunio	Rhagfyr 2012	Caiff materion BME eu cynnwys ym mhrif corff y Strategaeth Tai Leol (STL). Mae'r STL yn cael ei datblygu a dylai fod yn barod yn haf 2013.	Peter Williams
Hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth	Ebrill 2012	Bydd posteri ac arwyddion desg yn	Lynda Grove

Cymraeg mewn derbynfeydd cyhoeddus a thrwy'r cylchgrawn i denantiaid.	gydag adroddiadau blynyddol am gynnydd	hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg ym mhob man cyhoeddus. Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau sy'n nodi hynny. Caiff gwybodaeth gyhoeddus gan gynnwys poster, taflenni, bathodynau, negeseuon ffôn ac arwyddion eu gwirio yn yr archwiliad y disgwylir ei gwblhau yn haf 2013. Mae'r cylchgrawn i denantiaid, Tŷ Agored, yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.	
---	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb – Adfywio Cymunedol

Amcan Cydraddoldeb 16			
Ymgymryd â gwaith partneriaeth ar yr agenda Cydlyniant Cymunedol			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cyflwyno cynllun gwirfoddol ar gyfer Dinas Noddfa	Mawrth 2013	Mynegodd sawl is-adran yn y cyngor ddiddordeb mewn cynnig lleoliadau gwaith gwirfoddol i ffoaduriaid. Cynigiwyd 2 leoliad a'u cwblhau ym mis Rhagfyr 2012 a mis Ionawr 2013. Cynhaliwyd hyfforddiant am faterion ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar gyfer yr holl staff Cymunedau'n Gyntaf ym mis Chwefror 2013. Cynhelir hyfforddiant ychwanegol ym mis	UAC - Prif Swyddog AC

		Gorffennaf 2013.	
Rhoi Cynllun Gweithredu Strategaeth Cydlyniad Cymunedol corfforaethol ar waith a'i fonitro	Ebrill 2013 (parhaus)	Mae Cynllun Gweithredu Cydlyniad Cymunedol drafft newydd yn aros i'r Grŵp Rheoli CC newydd roi cymeradwyaeth derfynol iddo. Hefyd sefydlwyd Grŵp Sicrhau CC i sicrhau y rhoddir y cynllun ar waith yn foddhaol	UAC - Cydlynnydd AC
Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Cydlyniad Cymunedol yn allanol ac yn fewnol	Ebrill 2013	<p>Mae'r Gronfa Cydlyniad Cymunedol wedi dod i ben</p> <p>Darparwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydlyniad Cymunedol a Throseddau Casineb i aelodau ward etholedig a swyddogion y cyngor rhwng mis Chwefror a mis Mai 2013.</p> <p>Mae hyfforddiant ychwanegol am Ymwybyddiaeth Masnachu Pobl wedi cael ei drefnu.</p> <p>Trefnwyd hyfforddiant i dargedu'r cymunedau Mwslimaidd lleol ynglŷn ag adrodd am droseddau casineb.</p>	CRU – Caroline Carter

Amcan Cydraddoldeb – Diwylliant a Thwristiaeth

Amcan Cydraddoldeb 17

Annog mwy o gyfranogiad mewn diwylliant, hamdden a chwaraeon a gwella mynediad i wasanaethau/cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Lleoliadau Diwylliannol a Pharciau			
<p>Ehangu Gwasanaeth Addysg yr Archifau ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.</p> <p>Bydd gwasanaeth addysg yr archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu'n darparu sgysiau mewn ysgolion sy'n cysylltu â'r cwricwlwm</p>	Mawrth 2013	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mawrth 13 - Cafodd prosiect Cyfnod Sylfaen i ddarparu adnoddau athrawon ar gyfer disgyblion 3-5 oed ei ddatblygu a'i dreialu gydag athrawon mewn ysgolion ac fe'i cwblhawyd ddiwedd mis Mawrth 2013. Cynhyrwyd DVD a'i osod ar Edunet Abertawe a 'Phorth Dysgu' CNPT. Mae modiwlau Cyfnod Allweddol 2 yn parhau ac mae rhagor yn cael eu datblygu ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Cyflawnwyd prosiect arbennig i ddarparu adnodd addysgu ynglŷn â Glyncoirwg ar y cyd ag Amgueddfa Glowyr De Cymru.</p>	Rosemary Davies
<p>Datblygu, rhoi ar waith a hyrwyddo prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl dros 50 oed</p>	Mawrth 2013	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mawrth '13 - Cynhaliwyd dosbarthiadau Click y BBC gyda'r nod o wella llythrennedd TG i bobl dros 50 oed yn llyfrgelloedd Brynhyfryd, Fforestfach, Tregŵyr, Cilâ, Llansamlet, Ystumllwynarth, Penlan,</p>	Jayne Trumper

		Pennard a Phontarddulais gan gyrraedd mwy na 600 o bobl.	
Sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd wedi cael eu hyfforddi/wedi mynd ar gyrsiau gloywi i ddefnyddio'r dolenni clyw	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau Mar 13 - Cyflenwyd dolenni clyw newydd a mwy effeithiol i'r holl safleoedd gyda chyfarwyddiadau llawn i'r staff.	Jayne Trumper
Caffael cymhorthion cyfrifiadurol nam ar y golwg ychwanegol/gwell a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau Mawrth 13 - Gosodwyd sticeri bysellfwrdd gwelededd uchel ar o leiaf un cyfrifiadur ym mhob safle er mwyn hwyluso defnydd	Jayne Trumper
Trefnu amrywiaeth o sgysiau amgueddfa sy'n mynd â'r amgueddfa i bobl hŷn	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau Mae 30 o sgysiau wedi cael eu cynnal mewn amrywiaeth eang o leoliadau megis neuaddau cymunedol/eglwysi, cartrefi gofal preswyl a chanolfannau grwpiau cymunedol gyda oddeutu 300 o bobl hŷn yn dod. Ymysg y pynciau yr ymdriniwyd â hwy roedd hanes Abertawe, Copperopolis, yr Olga, y Dociau a'r Marina, atgofion, sesiynau trin a thrafod eitemau hanesyddol cymdeithasol, casgliadau	Phil Treseder

		<p>cyfoes ar thema, yr Ail Ryfel Byd, cerameg Abertawe, trên y Mwmbwls a sut daeth y Mymi i Abertawe.</p> <p>Byddai nifer y sgysiau wedi bod hyd yn oed yn uwch ond cafodd y Swyddog Mynediad Cymunedol ei secondio i swydd arall naw mis yn ôl.</p>	
<p>Annog mwy o ymwelwyr 14-18 oed i ymweld ag Oriol Gelf Glynn Vivian trwy greu grŵp ffocws pobl ifanc a phrosiect dysgu sydd yn yr arfaeth mewn cydweithrediad â Tate fel un o'r partneriaid rhanbarthol.</p>	<p>Mawrth 2013</p>	<p>Dewiswyd Oriol Gelf Glynn Vivian i fod yn rhan o gynllun ledled y DU, fel rhan o'r rhwydwaith <u>Plus Tate</u> sy'n helpu pobl ifanc i gysylltu a rhyngweithio ag orielau celf, mewn cyfres o raglenni, gweithdai, prosiectau a digwyddiadau. Rhoddwyd y dasg i holl bartneriaid Plus Tate o sefydlu prosiect i gysylltu â phobl ifanc 14-21 oed.</p> <p>Fe'n sbardunwyd gan hyn i sefydlu Prosiect Pobl Ifanc Glynn Vivian. Amcanion y prosiect oedd gweithio gyda phobl ifanc 14-19 oed i'w cynnwys yn rhaglen yr oriel a'r gymuned leol. Y nod yw grymuso ac integreiddio pobl ifanc i weithgaredd yr oriel trwy'u gwneud yn ganolog i'r broses o werthuso prosiectau wedi'u cychwyn ganddynt hwy eu hunain yn ogystal â chymryd rhan mewn grwpiau</p>	<p>Karen Mackinnon Tom Goddard</p>

		<p>Ilywio ar gyfer gweithgareddau a gwerthusiadau Glynn Vivian yn y dyfodol. Mae prosiect y bobl ifanc yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau/gweithgareddau am 9 mis gyda'r grŵp blaenorol yn troi'n fentoriaid ym mis Ebrill.</p> <p>Y syniad yw bod y grŵp yn derbyn her i ymateb iddi'n greadigol, gan ddylunio a datblygu rhywbeth gweladwy ond sydd hefyd yn dangos ffordd o weithio gyda phobl ifanc a all fod yn gynaliadwy. Rhoddir pwyslais ar greu cyfleoedd dilynol i'r bobl ifanc ddenu pobl ifanc eraill o'r un oedran.</p> <p>Gosododd y bobl ifanc dasg iddynt eu hunain o gynnwys pobl ifanc eraill (14-19) mewn digwyddiad neu weithgaredd. Bathodd y grŵp o bobl ifanc 14-19 oed yr enw 'Crash' iddynt eu hunain ac aethant ati i drefnu cystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' yn y YMCA. Mewn ychydig dros bythefnos, cafodd y digwyddiad ei drefnu a'i lwyfannu gan y grŵp a fu'n gyfrifol am bob rhan o'r broses gan gynnwys trefnu'r bandiau, marchnata, dylunio, hyrwyddo, rheoli'r digwyddiad,</p>	
--	--	--	--

		<p>cefnogaeth dechnegol, ffilmio, golygu a gwerthuso. Ymwelodd y grŵp â manau a phrosiectau celf ym Mryste ac yn Abertawe, gan greu ffilm ddogfen am y broses, trefnu digwyddiadau galw heibio yn y ddinas a chynhyrchu dau fideo hyrwyddol ar gyfer y bandiau <u>Alterium</u> a <u>The Fallen Empire</u>.</p> <p>Mae'r grŵp yn cwrdd bob nos Fercher ac yn ddiweddar rhoddwyd y dasg iddo o drefnu digwyddiadau i recriwtio aelodau newydd trwy'u cynnwys yn rhaglen yr oriel. Yn ddiweddar, ymunodd tîm Crash â '<u>Film Club</u>', elusen addysgol sy'n ceisio trawsnewid bywydau pobl ifanc trwy ffilm, gan helpu sefydliadau i greu clybiau sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc wyllo, trafod ac adolygu amrywiaeth eang o ffilmiau – gan fwydo eu dychymyg a meithrin eu datblygiad cymdeithasol a deallusol.</p> <p>Ym mis Hydref ar gyfer Nos Galan Gaeaf, dangosodd tîm Crash y ffilm 'Dark Shadows' gan Tim Burton ac ers hynny, maent wedi dechrau dewis ffilmiau i'w sgrinio ar nos Fercher olaf</p>	
--	--	---	--

		<p>pob mis trwy gydol 2013 fel rhan o'u rhaglen '12 ffilm i'w gwyllo cyn i chi heneiddio'. Yn hanner tymor mis Ebrill, daw'r grŵp presennol yn fentoriaid i grŵp newydd o bobl ifanc a fydd hefyd yn creu digwyddiad ym mis Awst.</p> <p>Lluniodd y grŵp gynnig am brosiect barddoniaeth ieuenctid newydd a drefnwyd gan <u>Llenyddiaeth Cymru</u> ac fe'u dewiswyd i fod yn rhan ohono. Ariennir y prosiect gan Sefydliad Clore Duffield. O fis Tachwedd i fis Ionawr, bydd y grŵp yn gweithio gyda'r awdur a'r bardd Patrick Jones mewn cyfres o weithdai a fydd yn archwilio barddoniaeth lafar, rap ac ychydig o waith ysgrifennu gorau Cymru. Yna bydd y grwpiau'n creu eu darnau perfformiad sain wedi'u recordio eu hunain i'w cyflwyno mewn digwyddiad Slam Barddoniaeth Ieuenctid Cenedlaethol yng Nghaerdydd ddiwedd mis Ionawr 2013.</p> <p>Yn ei hanfod, ein nod yw rhoi pobl ifanc wrth wraidd ein gwaith mewn ffordd newydd. Ein bwriad yw symblu creadigedd a datblygu partneriaethau</p>	
--	--	--	--

		newydd rhwng yr oriel ac asiantaethau allweddol gan weithio gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc o Abertawe a'r cylch, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau a gwasanaethau plant. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall y celfyddydau ei chael ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i fod yn aelodau iach, diogel, hapus a chadarnhaol o gymunedau bywiog a datblygu eu hyder, eu galluoedd a'u sgiliau.	
Gwella'r wybodaeth ar y we am fynediad i barciau er mwyn rhoi gwybod ymlaen llaw i ddefnyddwyr posib am y parciau sy'n hygyrch i bobl anabl a lleoliad y mynedfeydd.	Mawrth 2013	<p>Ar waith</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Parciau wedi cyflwyno gwybodaeth gychwynol am fynediad i'r Adran Farchnata i'w lanlwytho i'r we. Mae hyn wedi arwain at y prif barciau'n darparu rhywfaint o wybodaeth am fynediad.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr wybodaeth hon yn eithaf cyfyngedig ac na fyddai'n helpu pobl anabl i wybod pa mor hygyrch yw'r parc ar y tu mewn.</p> <p>Bydd yr adran yn gweithio bellach i</p>	John Hopkins/Marchnata

		ddarparu tudalennau mynediad unigol ar gyfer pob parc gan nodi elfennau allweddol megis hygyrchedd y mynedfeydd, dewisiadau parcio, cyfleusterau hygyrch ar y safle a disgrifiadau o'r parciau i roi syniad am ba rannau sy'n hygyrch. Dylai hyn roi trosolwg manylach i gwsmeriaid.	
Adolygu'r opsiwn i ychwanegu gwybodaeth am fynediad ar arwyddion parciau a fyddai'n nodi'r llwybrau hygyrch	Mawrth 2013	<p>Ar Waith</p> <p>Mae John Hopkins yn trafod y posibilrwydd o ychwanegu symbolau at arwyddion ynglŷn â mynediad. Efallai bydd rhaid i'r rhain fod yn sticeri i arbed costau.</p> <p>Posibilrwydd arall yw defnyddio codau QR ar arwyddion i gysylltu â data mynediad ar wefan y Gwasanaeth Parciau.</p> <p>Bellach wedi'i gysylltu â'r camau uchod</p>	John Hopkins
Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden			
I gyflawni'r Marc Enfys ar draws yr Adran Hamdden	Mawrth 2013	Wedi'i gwblhau yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, Ebrill '12. Mae angen diweddarau hyfforddiant a	Dave Osborne

		<p>phrotocolau ar gyfer pob safle. Gallai hyn bara tan fis Medi 2013</p> <p>Mawrth 2013 - Mae'r Ganolfan Ragoriaeth LGBT wedi dod i ben ac felly mae'r Marc Enfys hefyd wedi darfod.</p>	
<p>Adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau i ehangu'r rhaglen weithgareddau i fenywod yn unig mewn canolfannau hamdden.</p>	Mawrth 2013	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Medi '12 - Yng Nghanolfan Hamdden Penlan ychwanegwyd dosbarth nofio menywod yn unig arall i ateb y galw.</p> <p>Mawrth '13 - Mae Canolfan Hamdden Penyrheol wedi ychwanegu dosbarth 'golff meddal' i fenywod ar nos Iau. Cynhelir hwn gan Nicola Stroud o Glwb Golff Gŵyr. – Dyma'r tro cyntaf i'r gweithgaredd hwn gael ei gynnal yng Nghymru.</p> <p>Mae Bokwa wedi cael ei gyflwyno i ganolfannau hamdden Penlan, Llandeilo Ferwallt a Phenyrrheol. Mae cyfranogwyr yn llunio llythrennau a rhifau gyda'u traed wrth berfformio ymarfer corff cardiofasgwlaidd gafaelgar sy'n rhoi llawer o egni. Mae Ioga Beichiogrwydd hefyd wedi cael ei lansio ym mhob safle. Mae Rhedeg i Fenywod wedi cael ei</p>	Steve Smith

		ailgyflwyno yn Nhreforys.	
Datblygu cyfleoedd i bobl anabl gyfranogi, gwirfoddoli a hyfforddi mewn chwaraeon a darparu cefnogaeth ar gyfer clybiau anabledd presennol	Mawrth 2013	Wedi'i gyflawni - Mae'r amcan hwn wedi cael ei gynnwys yn ein cais am achrediad gan Chwaraeon Anabledd Cymru. Nid oedd modd i ni ei gyflwyno i'r panel erbyn y dyddiad arfaethedig, ond rydym bellach wedi'i wneud ac wedi ennill Gwobr Rhuban DASA. Y cam nesaf fyddai cynyddu lefel yr achrediad i'r safon efydd erbyn mis Mehefin 2014.	David Jones
Annog a chefnogi clybiau chwaraeon prif ffrwd i integreiddio pobl anabl trwy lwybrau'r Corff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol.	Mawrth 2013	Fel uchod	David Jones
Adolygu'r dewisiadau caeau chwaraeon i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer pêl-droed fach.	Mawrth 2013	Ar waith Medi '12 - Adolygiadau blynyddol yn eu lle – dim materion wedi'u hamlygu gan fod y galw'n cael ei ateb ar hyn o bryd. Mawrth '13 - Amlygodd cyfarfod diweddar â'r Cynghrair Pêl-droed fod angen darparu rhagor o gaeau i blant dan 10 oed mewn lleoliad newydd. Mae Parc Cwmbwrla wedi cael ei nodi a bydd mwy o ymchwil yn cael ei chynnal iddo. Bydd angen cynnal adolygiadau blynyddol gyda'r	Jamie Rewbridge

		cynghrair wrth i chwaraewyr ddatblygu er mwyn atal 'tagfa' mewn unrhyw grŵp oedran/maint cae.	
Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol)	Mawrth 2013	Ar waith – Mae adolygiad o'r Gwasanaeth Pobl Ifanc wedi cael ei gwblhau o ran newidiadau i strwythur a dulliau cyflwyno arfaethedig. Bydd y broses newydd yn dechrau o ddifrif ar ddechrau tymor mis Medi 2013.	David Jones
Cymerwch gamau i leihau'r bwch rhwng y rhywiau ymhellach mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol trwy ddatblygu cyfleoedd Campau'r Ddraig a 5x60, ymgynghori â merched oed ysgol am y gweithgareddau corfforol y maent yn eu hoffi a gweithio gyda chlybiau chwaraeon i annog cyfranogiad ôl-16.	Mawrth 2013	Er mwyn parhau â'r gwelliannau diweddar, mae swyddogion wedi ystyried blaenoriaethu'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymhlith merched 11-16 oed, grŵp targed â chyfraddau rhoi'r gorau sylweddol yn y gorffennol. Mae hyn wedi cynnwys cyfleoedd am weithgareddau corfforol anghystadleuol megis dawns a ffitrwydd cyffredinol yn ogystal â chwaraeon tîm traddodiadol megis pêl-droed a phêl-fasged mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys sesiwn merched yn unig mewn lleoliadau priodol gydag ymagwedd fwy penodol	David Jones

		at hamdden. Mae hyn yn golygu bod merched nad ydynt yn cymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol cystadleuol traddodiadol ar hyn o bryd yn cael cyfleoedd sy'n apelio atynt. Disgwylir ystadegau gwybodaeth rheoli Chwaraeon Cymru ym mis medi 2013.	
Ym mhob lleoliad			
Adolygu'r polisïau mynediad i ofalwyr ar draws yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth er cysondeb a thegwch. Ar ôl ei gwblhau, sicrhau bod polisïau'n cael eu hyrwyddo i sicrhau ymwybyddiaeth.	Mawrth 2013	<p>Ar Waith</p> <p>Cwblhawyd yr adolygiad o fynediad i ofalwyr ym mis Awst 2012. Anfonwyd yr adroddiad at y Tîm Strategol Diwylliant a Thwristiaeth i'w drafod ac i lunio polisi ffurfiol.</p> <p>Yn seiliedig ar y polisi ffurfiol, mae'r Adran Diwylliant a Thwristiaeth yn datblygu Cynllun 'Ac Un' y gall cwsmeriaid wneud cais amdano a derbyn cerdyn aelodaeth i gael gostyngiad neu drwydded am ddim ar gyfer eu cynorthwyyr personol. Mae'r adran bellach yn gweithio gyda SAFE a Fforwm Anabledd Abertawe i ddatblygu'r cynllun ymhellach a chaiff ei lansio ym mis Medi 2013.</p>	Robert Bowen
Hysbysebu i gwsmeriaid ymrwymiad yr	Mis medi 2012	Ar Waith	Liz Shellard

<p>Adran Diwylliant a Thwristiaeth i bolisi'r cyngor ar gyfer bwydo ar y fron trwy sicrhau bod logo 'Ilaeth y fam' yn cael ei ychwanegu at wedudalennau a bod sticeri/posteri mewn cyfleusterau.</p>		<p>Ar yr agenda i'w drafod yng nghyfarfod y Gweithgor Cydraddoldebau ym mis Medi '12. Gofynnwyd i'r holl gynrychiolwyr rannu'r wybodaeth â'u hadrannau ac annog pobl ar draws yr adran i ymaelodi.</p> <p>Mae tîm gwe'r gwasanaeth marchnata yn ychwanegu'r wybodaeth a'r logo at wefannau'r cyfleuster wrth iddynt ymaelodi.</p>	
<p>Adolygu darpariaeth y manau newid babanod ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth.</p>	<p>Mawrth 2013</p>	<p>Bwrw Ymlaen</p> <p>Dim cynnydd hyd yma. Camau gweithredu bwrw ymlaen i'w cynnal yn 2013-14.</p>	<p>Robert Bowen</p>
<p>Cefnogi, targedu a darparu digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithdai Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth.</p>	<p>Mawrth 2013</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Cynnydd da hyd yma gydag amrywiaeth anferth o weithgareddau, arddangosfeydd a digwyddiadau ar gyfer y cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) neu wedi'u dylunio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth megis Diwrnod Parti'r Byd, cynnal Gŵyl Ddawns Indiaidd</p>	<p>Gweithgor Cydraddoldeb Diwylliant a Thwristiaeth</p>

		yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, arddangosfeydd Mis Hanes Pobl Ddu yn y Llyfrgell Ganolog, gweithgareddau ac arddangosfeydd yn Amgueddfa Abertawe ynglŷn â ffoaduriaid/ceiswyr lloches a rhagor o sesiynau nofio i fenywod yn unig ym mhwl Pentrehafod.	
Gwella cyfathrebu â sefydliadau BME am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel bod cymunedau'n ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth.	Medi 2012	Ar waith Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn yr adran.	Elle Moore/Marchnata
Lle bo modd, cyflwyno 'byrddau croeso' mewn gwahanol ieithoedd mewn lleoliadau diwylliant a thwristiaeth.	Mawrth 2013	Annhebygol o gael ei gyflawni Nodwyd mai costau oedd y prif bryder. Fodd bynnag, gan fod arwyddion presennol mewn lleoliadau'n amrywio o ran maint a dyluniad, gallai fersiynau unffurf i'w disodli fod yn ddrudd. O ystyried y pwysau ar gyllideb y cyngor ar hyn o bryd, nid yw'n debygol y caiff y syniad hwn ei ddatblygu ymhellach.	Elle Moore/Marchnata
Sicrhau bod gwasanaethau a digwyddiadau diwylliant a thwristiaeth yn	Mawrth 2013	Parhaus	Iwan Davies

<p>ymwybodol o arferion diwylliannol/crefyddol a'u bod yn gwneud addasiadau rhesymol i ymateb i'r rhain, lle bo modd.</p>		<p>Calendr o wyliau/digwyddiadau diwylliannol a chrefyddol wedi'i ddsbarthu gan JB fel y gall gwasanaethau nodi gwrthdrawiadau posib.</p> <p>Mae PCC yn ystyriol o'r materion sy'n gysylltiedig â Ramadan ac yn gohirio gwersi nofio gan y bydd y rhai sy'n dod yn ymprydio a gallant fod yn rhy wan i gymryd rhan. Bydd y gwersi'n aildechrau ar ôl Ramadan.</p> <p>Mae Neuadd Brangwyn yn cefnogi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn caniatáu i'r neuadd gael ei llogi am ddim ar gyfer y dathliadau.</p>	
<p>Er mwyn cyflawni'r Marc Enfys ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth perthnasol eraill</p>	<p>Mawrth 2014</p>	<p>Mawrth 2013 - Mae'r Ganolfan Ragoriaeth LGBT wedi dod i ben ac felly mae'r Marc Enfys hefyd wedi darfod.</p>	<p>Robert Bowen</p>

Amcanion Cydraddoldeb – Gwasanaethau Cymdeithasol

<p>Amcan Cydraddoldeb 18</p>			
<p>Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd yr holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu</p>			
<p>Camau cysylltiedig</p>	<p>Dyddiad cau</p>	<p>Cynnydd 2013</p>	<p>Swyddog â Chyfrifoldeb</p>

Cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol fel modd i sicrhau bod pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad i wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion diwylliannol ac eraill.	Rhagfyr 2012	Mae nifer y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi cynyddu 7% net. Cafwyd cynnydd yn nifer y rhai o'r gymuned BME sy'n cael eu cefnogi fel hyn.	Paul Littlewood
Adolygu'r cynlluniau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ar draws pob grŵp cleientiaid: Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Oedolion ag Anabledd Corfforol/Nam Synhwyraidd, Iechyd Meddwl a Gofalwyr.	Rhagfyr 2012	Mae'r cynlluniau comisiynu ar gyfer pob grŵp cleientiaid wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau gan y grwpiau comisiynu perthnasol.	Carol Rea
Fel rhan o adolygu'r ffurflen Asesu Unedig, ymchwilio i gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o nodweddion gwarchoddedig.	Rhagfyr 2012	Caiff yr asesiad unedig ei adolygu yn ystod 2013 a bydd ymagwedd newydd, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau mae dinesydd yn disgwyl eu cyflawni trwy'r gefnogaeth maent yn ei chael, yn cael ei rhoi ar waith gan weithwyr cymdeithasol ym mis Medi 2013.	Carol Rea
Parhau â'r Rhaglen Strategol Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion er mwyn cyflwyno gwasanaethau mwy personol sydd wedi'u anelu at ddinasyddion.	Rhagfyr 2014	Mae'r Rhaglen Strategol TASS wedi parhau i arwain ar wasanaethau mwy personol sydd wedi'u hanelu at ddinasyddion.	Deborah Driffield
Cynnal (ac ymchwilio i'r posibilrwydd o estyn) rhannau o wefannau Bywydau	Rhagfyr 2013 (adolygiad)	Adolygwyd y cynnwys a chaiff ei ddiweddarau trwy Fforwm y Darparwr.	Carol Rea

Abertawe a Phobl Abertawe ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.			
*Cyflwyno gwefan hollgynhwysfawr i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc	Hydref 2013	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Haydn Nelson fel Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Anableddau PPhl
*Cyflawni asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaeth Anableddau Plant	Rhagfyr 2013	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Lynda Palmer/Cathy Richards
*Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ifanc	Ebrill 2014	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Cathy Richards
*Datblygu'r gwaith magu plant corfforaethol ymhellach trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig	Mis Hydref bob blwyddyn	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Dave Howes
*Sefydlu proses drawsnewid amlasiantaeth rhwng gwasanaethau anableddau plant ac oedolion	Haf 2013	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Haydn Nelson/Carol Rea
*Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith angenrheidiol o gyflwyno'r cynlluniau comisiynu	Haf 2104	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Julie Thomas/Haydn Nelson/Tom Jones

Amcan Cydraddoldeb 19			
Darparu lefel uchel o wybodaeth am gam-drin yn y cartref a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb

<p>Agor gwasanaeth gwybodaeth a chyngor 'siop dan yr unto' yng nghanol dinas Abertawe. Bydd hwn yn darparu cefnogaeth yn y fan a'r lle i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.</p>	<p>Rhagfyr 2012</p>	<p>Mae'r safle yn Stryd Singleton wedi cael ei brynu ac mae gwaith wedi dechrau ar y llawr gwaelod (disgwylir cwblhau'r gwaith ac agor y safle erbyn diwedd mis Gorffennaf 2013). Roeddem hefyd yn llwyddiannus gyda'n cais i'r Loteri Fawr am ychydig dan £1 filiwn. Mae hyn yn golygu ein bod bellach ar y trywydd iawn i adnewyddu'r adeilad cyfan (tri llawr) hyd safon uchel dros ben ac i gyflogi rheolwr canolfan tua dechrau'r flwyddyn nesaf.</p>	<p>Ali Morris</p>
<p>Trefnu digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Dileu Trais yn erbyn Menywod) a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dyma ddau o'r digwyddiadau pennaf yng nghalendr y Fforwm Cam-drin yn y Cartref lle mae'r wybodaeth a roddir yn canolbwyntio ar wasanaethau un rhyw (menywod yn unig).</p>	<p>Ebrill 2013</p>	<p>Mae'r ddau ddigwyddiad wedi cael eu cynnal. Roedd Diwrnod y Rhuban Gwyn yn llwyddiannus iawn gyda nifer o stondinau yn cael eu gosod o gwmpas y ddinas, gan gynnwys fan digwyddiadau cymunedol am y tro cyntaf yng nghanol y ddinas. Roedd hyn yn galluogi dioddefwyr, ffrindiau ac aelodau teulu i dderbyn cefnogaeth a gwybodaeth mewn amgylchedd cyfeillgar a diogel. Cynhaliwyd digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gennym ar gyfer menywod yn unig yn y brifysgol lle roedd aelodau'r Fforwm Cam-drin yn y Cartref yn darparu amrywiaeth o weithdai a sgysiau, meithrinfa a</p>	<p>Ali Morris</p>

		chinio bwffe.	
Mynd i ddigwyddiadau eraill megis Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i gynyddu'r ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref	Ebrill 2013	Ymysg y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt mae Ffair Glasfyrwyr y Brifysgol, Diwrnod Agored y Ganolfan Fenywod, Cynhadledd Masnachu Pobl.	Ali Morris
*Sefydlu gwasanaeth cam-drin yn y cartref penodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn partneriaeth â PEI a'r Grŵp Strategaeth Trais yn y Cartref.	Rhagfyr 2013	Eitem newydd – adroddir am gynnydd yn 2014	Julie Thomas.

Amcan Cydraddoldeb – Budd-daliadau

Amcan Cydraddoldeb 20			
Bydd y Tîm Hawlio Budd-daliadau yn cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn budd-dal treth y cyngor 1.5% o lwyth achosion budd-dal treth y cyngor erbyn 31 Mawrth 2013 (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cynllunio a gweithredu amrywiaeth o weithgareddau a mentrau i gyflawni'r targed, fel a amlinellir yn ein Strategaeth Hawlio.	Mawrth 2013	Roedd 1.5% o'r llwyth achosion yn cyfateb i darged o 413 o achosion. Nifer gwirioneddol yr achosion newydd y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith a wnaed gan y Tîm Hawlio oedd 1,699 o hawlwr newydd. Roedd y tîm yn gweithio yn unol â chynllun gwaith y cytunwyd arno, gan ddefnyddio amrywiaeth o fentrau a gweithgareddau.	Rose McCreesh

Amcanion Cydraddoldeb - Yr Amgylchedd a Diogelwch

Amcan Cydraddoldeb 21			
Gwella mynediad i balmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio er mwyn darparu mynediad gwell i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith	Ebrill 2013 (yn cael ei adolygu'n flynyddol)	O safbwynt gwaith cymdogaethau, mae'r holl bolisiâu perthnasol wedi cael eu diweddarau a'u lledaenu.	Grŵp Polisi Palmentydd i Bobl
Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle bo angen	Parhaus	15-20 o groesfannau wedi'u hadeiladu, gan gynnwys y rhai mewn cynlluniau troedffordd cyffredinol. Cynllun blaenoriaethu newydd wedi'i ddatblygu.	Bob Fenwick
Darparu croesfan i gerddwyr â chyfleusterau i bobl anabl	95% erbyn Ebrill 2012	Mae gan bob croesfan newydd i gerddwyr a osodir gyfleusterau ar gyfer pobl anabl.	Mark Thomas
Ystyried materion anghydraddoldeb wrth ddylunio cynlluniau priffyrdd a thraffig.	Cynnwys y rhain wrth ddylunio pob prosiect.	Mae prosesau ymgynghori bellach yn eu lle yn unol â gweithdrefnau, gan gynnwys mewn adrannau mewnol.	Geoff Sheel
Darparu hawlenni i ganiatáu i sefydliadau gofal a gofalwyr barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr.	Parhaus	Mae ymgynghori'n parhau â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â sut i reoli'r broses hon yn y dyfodol.	Mark Thomas

Amcan Cydraddoldeb 22			
Cludiant: Gwella mynediad i fysis cyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb

<p>Lansio system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysus ganolog i bobl â nam ar y golwg. Cynnig, am flaendal a ddychwelir, ffobiau sy'n galluogi anfon negeseuon at ddefnyddwyr dall a'r rhai â nam ar y golwg. Darparu cyfarwyddiadau defnydd dwyieithog mewn braille, ar CD sain ac mewn print bras. Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob bae gadael ac mae'n offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r strïbed cyffyrddol a geir trwy neuadd yr orsaf.</p>	Hydref 2011	<p>Rhodddwyd y cynllun ar waith ac mae'r cyfarwyddiadau i gwsmeriaid ar gael ar CD sain ac mewn braille a fformatau print bras.</p> <p>Hefyd lluniwyd mapiau cyffyrddol ar gyfer yr orsaf fysus a'r orsaf reilffordd.</p>	Cath Swain
<p>Datblygu rhaglen i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bysus i hwyluso mynediad i deithwyr â phroblemau symudedd. Cwrdd â grwpiau anabledd i geisio'u barn ar flaenoriaethu. Mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n ei gwneud yn ofyniad i fysus fod yn hygyrch erbyn 2015. Bydd hyn yn cynyddu'r angen i'r cyngor ddarparu cyrbau uchel.</p>	Rhadlen ar waith erbyn 2015	Cyrbau uchel wedi'u darparu mewn 50 o safleoedd.	Cath Swain

Amcan Cydraddoldeb 23

Gwella darpariaeth diogelwch cymunedol – a chanfyddiadau o fod yn ddiogel – ar draws cymunedau Abertawe

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Darparu CCTV sefydlog a theithiol	Parhaus	Mae'r holl weithgareddau a chyngor	Jeff Davison

Darparu cyngor atal troseddu Cyfathrebu cadarnhaol a thawelu meddyliau Cynnwys cymunedau gan swyddogion Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol	Adolygu bob 6 mis, gydag adroddiad cynnydd blynyddol	yn parhau. Darperir arian bellach gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Arian wedi'i gadarnhau ar gyfer 2013-14.	
--	--	---	--

Amcan Cydraddoldeb 24 – addaswyd ar gyfer 2013			
Llunio Strategaeth Troseddau Casineb ar draws y cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol.			
Lansio ymgyrch mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru i gynyddu'r ymwybyddiaeth o droseddau casineb sy'n ymwneud ag anabledd yn Abertawe.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Cydgysylltu â grwpiau anableddau lleol i gofnodi eu profiadau o gasineb ac aflonyddu a chynnwys yr wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad.	Ebrill 2013	Wedi'i gwblhau Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2013 ar ôl cyfres o gyfweiliadau/sgyrsiau ffôn â gwirfoddolwyr a ymatebodd i bosteri a thafleuni a osodwyd mewn adeiladau cyhoeddus.	Tîm Mynediad i Wasanaethau a Heddlu De Cymru
Cynnwys manylion yr ymgyrch a gwybodaeth am ddulliau adrodd ar wefannau Heddlu De Cymru a DASA	Ebrill 2013	Wedi'i gwblhau Ceir manylion yn http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=16655	Tîm Mynediad i Wasanaethau a Heddlu De Cymru
Cynnal o leiaf 4 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth gyda grwpiau cymunedol yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch	Ebrill 2013	Wedi'i gwblhau Yn ystod cam datblygu'r adroddiad, aeth aelodau o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a/neu Heddlu De Cymru i ddigwyddiadau lleol er mwyn	Tîm Mynediad i Wasanaethau a Heddlu De Cymru

		cynyddu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogwyr posib y dyfodol i gamu ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys: Diwrnod Agored Anabledd Abertawe (Mai 2012), Ffair Iechyd Anabledd Pobl yn Gyntaf Abertawe (Mehfin 2012), cyfarfod blynyddol Rhwydwaith 50+ Abertawe (Tachwedd 2012) a Chlwb Pobl Fyddar Abertawe (Ionawr 2012).	
Cam gweithredu newydd wedi'i ychwanegu(2013): Drafftio Strategaeth Troseddau Casineb	Ebrill 2015	Canlyniad arfaethedig: Mae gwaith dros y ddwy flynedd heb ei gadarnhau eto ond bydd yn cynnwys gwaith partneriaeth, ymarfer cwmpasu cychwynnol a chysylltu â rhanddeiliaid.	Y Tîm Mynediad i Wasanaethau mewn partneriaeth â meysydd gwasanaeth perthnasol a phartneriaid allanol.

Amcanion cydraddoldeb 25			
Gweithio mewn partneriaeth yn lleol ar fentrau hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r holl gymunedau			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Amlinellu cylch gorchwyl y Grŵp Gweithredu Tybaco	Ionawr 2012	Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ac fe'i mabwysiadwyd ym mis Ebrill 2012.	Chris Steele
Datblygu Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar	Cynllun wedi'i ddatblygu erbyn	Cymeradwywyd fersiwn derfynol Cynllun Gweithredu Tybaco Abertawe	Chris Steele

ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio.	mis Mehefin 2012	2012-14 gan Fwrdd Partneriaeth Dinas Iach ym mis Hydref 2012.	
Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno trwy feicio neu gerdded yn ardaloedd y prosiect Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau.	I'w bennu pan fydd swm yr arian yn hysbys ar gyfer 2012/13	Oherwydd diffyg adnoddau, ni ellir darparu'r data hwn. Os caiff ei gymeradwyo, bwriedir cyflogi unigolyn rhan-amser i ymgymryd â'r rôl hon.	Mark Thomas

Amcan Cydraddoldeb 26			
Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn y gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb nid yn unig yn cael eu cynnwys ond bod y canlyniadau sy'n dilyn wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Rheoli Adeiladu			
Parhau ag arolygon ymgynghori â chwsmeriaid gan gynnwys holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.	Cyflwyno arolwg parhaus ar ôl cwblhau'r prosiect.	Ymgynghoriad parhaus. Dadansoddi'r canlyniadau diweddaraf a chyhoeddi'r rhain	Gweinyddiaeth Rheoli Adeiladu J Davey
Gwirio pob lefel o effaith ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys unrhyw lefel andwyol o orfodi	Bob 6 mis	Mae'r dadansoddiad yn parhau; dim lefelau o effaith andwyol wedi'u cofnodi.	Peter Richards J Davey
Dadansoddi data cwynion/sylwadau	Yn barhaus ar ôl ei dderbyn	Data wedi'i ddadansoddi, dim angen gweithredu	Peter Richards J Davey
Cyhoeddi'r canlyniadau	Ebrill 2012 (yn flynyddol)	Mae gwaith ar y gweill i gyhoeddi'r rhain ar wefan yr is-adran.	J Davey
Caiff yr holl wybodaeth, ffurflenni, taflenni etc eu darparu mewn unrhyw iaith/fformat os gofynnir am hyn.	Ar gael yn ôl y galw	Cyfleuster ar gael, dim ceisiadau hyd yma.	J Davey
Hysbysebu GCChAPC/darparu	Ar gael yn ôl y	Cyfleuster ar gael, dim ceisiadau hyd	Peter Richards/J Davey/

cyfieithydd ar y pryd yn ôl yr angen	galw	yma.	Swyddogion Rheoli Adeiladu
Claddedigaethau ac Amlosgiadau			
Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion grwpiau ethnig a chrefyddol/cred yn Abertawe	Parhaus	Caiff man gwyllo ei gynnwys yn y gwaith i adnewyddu amlosgfeydd i alluogi'r arfer Sikhaidd o wyllo'r arch yn cael ei roi yn yr amlogwr. Erbyn hyn darperir claddedigaethau ar gyfer grwpiau newydd sy'n parchu eu credoau/traddodiadau, e.e. Mandeaid a Bahaiaid.	Noel Evans
Rheoli Gwastraff			
Casgliadau gwastraff â chymorth i bobl anabl a hŷn	Adolygu'n fisol	Mae'r system ar gyfer casgliadau â chymorth wedi cael ei hadolygu a'i gwella i sicrhau y gellir darparu'r gwasanaeth gorau i'r rhai y mae ei angen arnynt. Ar ôl nodi bod angen, bydd y goruchwyliwr yn ymweld â'r cwsmer ac yn cytuno ar fan casglu. Mae hyn yn rhoi eglurdeb i bawb sy'n rhan o'r broses, gan wella'r system a lleihau cwynion cwsmeriaid am golli casgliadau.	Wynn Lawrence

Amcan Cydraddoldeb – Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)

Amcan Cydraddoldeb 27

Sicrhau recriwtio gweithlu amrywiol yn y GAEC

Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Recriwtio – Sicrhau bod yr holl recriwtio yn y dyfodol yn y GAEC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau ymhellach â grwpiau/sefydliadau allanol i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter ac i gefnogi'r GAEC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol.	Mawrth 2013	Dechreuodd y GAEC recriwtio prentisiaid ym mis Mawrth 2013. Yn ogystal â hysbysebu am brentisiaid yn y wasg leol ac ar wefan yr awdurdod, buom yn cysylltu ag Y Tu Hwnt i Frics a Morter a'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu. Roedd hyn yn golygu bod y cyfleoedd a oedd ar gael yn agored i bawb. Yn 2012 cynhaliodd y GAEC ymgyrch recriwtio hefyd i gyflogi crefftwyr. Ar ôl cwblhau'r broses a chynnal cyfweiliadau, rhoesom swyddi i 4 cynweithiwr Remploy a fu'n llwyddiannus.	Sharon Jones/Emma Lewis

Amcan Cydraddoldeb – Caffael

Amcan Cydraddoldeb 28			
Cydymffurfio â'r rheoliad caffael a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau sy'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol; 	Ebrill 2012	Cynhelir asesiad risg cynaliadwy i nodi'r risgiau a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio'r ddogfen fanyleb yn y tendr. Gofynnir am feini prawf gofynnol cydraddoldebau (yn benodol unrhyw doriadau) ar gyfer pob contract caffael yn y cam rhag-	Simon Griffiths

<ul style="list-style-type: none"> ystyried a fyddai'n briodol i nodi amodau sy'n ymwneud ag ymgymryd â'r contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. 		gymhwyso – mae'r wybodaeth hon yn sail y contract masnachol ac yn cael ei monitro ar hyd cyfnod y contract.	
---	--	---	--

Amcanion Cydraddoldeb – Cyfathrebu, Marchnata, Trosolwg a Chraffu

Amcan Cydraddoldeb 29			
Ymchwilio i addasiadau posib i ddyfeisiau amlswyddogaeth (llungopiwyd) mewn gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd megis llyfrgelloedd, ysgolion a swyddfeydd mewnol. Gallai addasiadau gynnwys gostwng y paneli rheoli i helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth lungopio, sganio a chasglu dogfennau.			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Ymchwilio i addasiadau gan gyflenwyr	Mehefin 2012	Dewisiadau wedi'u nodi trwy ymchwil gychwynnol a'r tendr a ddyfarnwyd i Konica Minolta, Mawrth 2013	Anthony Evans
Ymgynghori â defnyddwyr dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion	Mehefin 2012	Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ag ysgolion, rheolwyr ysgolion a llyfrgelloedd ynglŷn â'r contract Dyfeisiau Amlswyddogaeth newydd.	Anthony Evans
Llunio tendr dyfeisiau amlswyddogaeth i gynnwys costau ac argaeledd addasiadau ar gyfer hygyrchedd	Gorffennaf 2012	Wedi'i gwblhau a'i ddyfarnu ym mis Mawrth 2013. Mae gan bob ddyfais amlswyddogaeth newydd sgrîn troi i lawr (panel rheoli) sy'n galluogi mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.	Anthony Evans
Ar y cyd â chwsmeriaid dyfeisiau amlswyddogaeth, nodi a gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion	Yn barhaus o fis Mawrth 2013.	Gwaith gosod yn parhau ar hyn o bryd. Mae'r llyfrgelloedd yn ystyried dewisiadau ar ôl cyfarfod ar 14	Anthony Evans

mynediad.		Mehefin 2013.	
-----------	--	---------------	--

Amcan Cydraddoldeb 30			
Gweithredu'n briodol i sicrhau bod modd i bobl â nam ar y golwg fwynhau Arwain Abertawe			
Camau cysylltiedig	Dyddiad cau	Cynnydd 2013	Swyddog â Chyfrifoldeb
Adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl â nam ar y golwg	Mehefin 2012	<p>Mae gwasanaeth 'tapiau sain' wedi gweithredu yn Saesneg yn unig ers lansio Arwain Abertawe. Mae'r cwsmeriaid yn gwneud eu dewisiadau eu hunain ac maent yn derbyn tâp casét yn fuan ar ôl cyhoeddi fersiwn argraffedig y papur newydd.</p> <p>Gall pobl â nam ar y golwg fynd ar y we i ddarllen fersiwn ar-lein y cyhoeddiad a chynyddu maint y tudalennau PDF i 500%.</p>	Patrick Fletcher
Ymchwilio i sut mae awdurdodau lleol eraill yn darparu gwasanaethau i bobl â nam ar y golwg o ran eu papur bro.	Mehefin 2012	<p>Anfonwyd e-bost crwn at yr 21 o awdurdodau lleol eraill i ofyn y cwestiwn hwn. Cafwyd saith ymateb.</p> <p>O'r ymatebion mae'n amlwg bod gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cyhoeddi papurau bro. Er enghraifft, nid yw Sir Fynwy, Sir Gâr na CNPT yn cyhoeddi mwyach.</p> <p>O ymatebion yr awdurdodau lleol sy'n</p>	Patrick Fletcher

		<p>darparu papur bro, nid oes ymagwedd gyffredin at ddarpariaeth. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i'r hyn sy'n boblogaidd yn lleol.</p> <p>Yng Ngwynedd mae Cymdeithas y Deillion leol yn darparu gwasanaeth recordio a dosbarthu am £500 y rhifyn. Yn Wrecsam bydd y cyngor yn darparu fersiwn print mawr ar gais.</p>	
Ymchwilio i farn sefydliadau lleol perthnasol	Gorffennaf 2012	<p>Swyddog Cydgysylltu Anabled Cyngor Abertawe yw'r prif gyswllt â sefydliadau ar gyfer pobl â nam ar y golwg yn y ddinas. Y sefydliad ymbarél ar eu cyfer yw Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg.</p> <p>Maent wedi argymhell i'r cyngor ddarparu Arwain Abertawe heb y lluniau mewn dogfennau Word gan ddefnyddio ffont Arial pwynt 14.</p>	Patrick Fletcher
Adolygu goblygiadau adnoddau'r adroddiad a datblygu cynllun gweithredu.	Hydref 2012	Ni fydd gan y gweithredu hyn unrhyw oblygiadau ariannol. Bydd goblygiad adnodd o ran amser.	Patrick Fletcher
Cymeradwyo'r cynllun gweithredu	Rhagfyr 2012	Mae Cyngor Abertawe'n parhau i ddarparu'r gwasanaeth 'tapiau sain' i'r	Patrick Fletcher

		<p>rhai sy'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Cyngor Abertawe yn cynhyrchu fersiwn lafar o Arwain Abertawe yn unol â'r manylebau a nodwyd uchod gan Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg.</p> <p>Caiff hyn ei dreialu dros dri rhifyn, gan ddechrau gyda'r rhifyn ar gyfer Medi 2013.</p> <p>Bydd Arwain Abertawe'n cynnwys erthygl yn rhifynnau Medi, Tachwedd ac Ionawr i dynnu sylw at argaeledd y fersiwn Word a'r fersiwn tâp sain.</p> <p>Bydd y Gwasanaeth Cyfathrebu yn gweithio gyda'r Tîm Mynediad i Wasanaethu i hysbysebu argaeledd y gwasanaeth mor eang â phosib.</p> <p>Ar ddiwedd y cyfnod peilot, cynhelir adolygiad.</p>	
Rhoi cynllun gweithredu ar waith, gan gynnal adolygiadau blynyddol a gwneud addasiadau lle bo hynny'n briodol.	Ebrill 2014	I'w adrodd yn yr adolygiad blynyddol nesaf, erbyn y dyddiad cau yn 2014	Patrick Fletcher

Atodiad 2

Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant

Cyflwynir yr wybodaeth hon mewn dwy ran:

Rhan 1: Data ar 31 Mawrth 2013 – yr wybodaeth a ddelid cyn cynnal yr arolwg staff.

Rhan 2: Canlyniadau data o'r arolwg staff (2013). Casglwyd yr wybodaeth hon ar wahân – mae gwaith bellach wedi dechrau i gyfuno'r ddwy set o ddata.

Rhan 1 - Data cyflogaeth ar 31 Mawrth 2013

Mae peth data am gydraddoldeb wedi cael ei gasglu ar weithwyr newydd dim ond ers 2007.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigurau canlynol yn cynnwys yr un cyfansymiau – mae'r anghysondeb hwn oherwydd y gwaith parhaus i gyflwyno'r system fonitro newydd, yn ogystal â natur anorfod y broses casglu data.

Lle gallai gwerthoedd alluogi adnabod aelodau unigol o staff, mae ffigurau wedi cael eu disodli gan *.

Cyfrif Pennau	Nifer y bobl a gyflogwyd gan yr awdurdod ar 31 Mawrth 2013	Nifer y gweithwyr sydd wedi gadael cyflogaeth yr awdurdod
Oedran	7,150	526
16-24	259	32
25-34	1,277	115
35-44	1,776	116
45-49	1,200	39
50-54	1,130	34
55-59	928	61
60-64	476	91
65-69	90	37
70-74	10	*
75+	*	*
Dewis peidio â dweud	*	*

Rhyw	6,676
Gwryw	2,624
Benyw	4,052

Anabledd	
Anabl	81
Heb anabledd	6,584
Dewis peidio â dweud	11

Grŵp Ethnig	
--------------------	--

Gwyn	1,453
Grwpiau ethnig cymysg/lluosog	*
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	15
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	14
Grŵp ethnig arall	*

Crefydd neu gred	724
Dim crefydd	121
Cristnogaeth (pob enwad)	485
Unrhyw grefydd arall (gan gynnwys Bwdhaeth, Iddewiaeth ac Islam)	95
Dewis peidio â dweud	23

Data ychwanegol yn ôl rhyw:

Cyfrif Pennau	Staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2013	
	Gwryw	Benyw
Band cyflog (£)	2,624	4,052
0-4,999	*	*
5,000-9,999	*	*
10,000-14,999	727	1,242
15,000-19,999	844	1,243
20,000-24,999	388	659
25,000-29,999	266	399
30,000-39,999	290	442
40,000-49,999	83	55
50,000-59,999	*	*
60,000-69,999	*	*
70,000+	14	*
Math o gontract	2,624	4,052
Parhaol	2,236	3,135
Cyfnod penodol	388	917
Patrwm gwaith	2,624	4,052
Llawm amser	2,291	1,721
Rhan-amser	333	2,331

Rhan 2: Data cyflogaeth a gasglwyd trwy'r arolwg staff (2013)

Casglwyd yr wybodaeth hon trwy arolwg proffilio gweithlu – mae'r cwestiynau a gwerthoedd yr ymatebion wedi cael eu hychwanegu isod. Lle gallai gwerthoedd alluogi adnabod aelodau unigol o staff, mae ffigurau wedi cael eu disodli gan *.

Ydych chi?	
639 (35.1%)	Gwryw
1180 (64.8%)	Benyw
*	Dewis peidio â dweud

Ydych chi o'r un rhyw ag yr oeddech chi pan gawsoch eich geni (h.y. wedi'ch geni'n wryw ac yn byw fel dyn ar hyn o bryd neu wedi'ch geni'n fenyw ac yn byw fel menyw ar hyn o bryd)?

1801 (99.0%)	Ydw
*	Nac ydw
*	Dewis peidio â dweud

Beth yw eich statws priodasol neu'ch statws partneriaeth sifil un rhyw?

470 (25.8%)	Sengl (h.y. ddim erioed wedi priodi neu fod mewn partneriaeth sifil gofrestredig)	37 (2.0%)	Mewn partneriaeth sifil
1000 (54.9%)	Priod	*	Wedi gwahanu (ond mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol o hyd)
35 (1.9%)	Wedi gwahanu (ond yn briod yn gyfreithiol o hyd)	*	Gynt mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi diddymu'n gyfreithiol
198 (10.9%)	Wedi ysgaru	*	Partner sy'n goroesi o bartneriaeth sifil
40 (2.2%)	Gweddw/Gŵr Gweddw	18 (1.0%)	Dewis peidio â dweud

Beth yw eich tueddfryd rhywiol?

28 (1.5%)	Hoyw/lesbiaidd	*	Arall (nodwch ar y dudalen nesaf)
1724 (94.7%)	Gwahanrywiol/Syth	29 (1.6%)	Dewis peidio â dweud
*	Deurywiol		

Beth yw eich crefydd neu gred/diffyg cred, hyd yn oed os nad ydych yn ymarfer mewn gair a gweithred ar hyn o bryd?

601 (33.0%)	Dim crefydd neu gred	*	Hindŵaeth
1065 (58.5%)	Cristnogaeth	11 (0.6%)	Bwdhaeth
*	Islam	64 (3.5%)	Crefydd neu gred arall (nodwch ar y dudalen nesaf)
*	Siciaeth	51 (2.8%)	Dewis peidio â dweud
*	Iddewiaeth		

Ydych chi'n ystyried eich bod yn ymarfer eich crefydd neu'ch cred?	
367 (31.8%)	Ydw
729 (63.1%)	Nac ydw
52 (4.5%)	Dewis peidio â dweud

Oes gennych unrhyw salwch neu anabledd hirsefydlog?	
251 (13.8%)	Oes
1520 (83.5%)	Nac oes
33 (1.8%)	Dewis peidio â dweud

A yw'r salwch neu'r anabledd hwn yn cyfyngu ar eich gweithgareddau pob dydd mewn unrhyw ffordd?	
99 (39.4%)	Ydy
124 (49.4%)	Nac ydy
23 (9.2%)	Dewis peidio â dweud

Nodwch isod os ydych yn brif ofalwr i un neu fwy o ddibynyddion gan gynnwys plant, pobl hŷn a/neu'r rhai sy'n anabl neu sydd â salwch tymor hir. Dewiswch bob un sy'n gymwys			
971 (53.4%)	Dim cyfrifoldebau gofalu	142 (7.8%)	Aelod o'r teulu/partner
43 (2.4%)	Person anabl	15 (0.8%)	Arall (nodwch ar y dudalen nesaf)
550 (30.2%)	Plentyn/plant	45 (2.5%)	Dewis peidio â dweud
92 (5.1%)	Person hŷn		

Sut byddech chi'n disgrifio'ch hun? Dewiswch bob un sy'n gymwys			
836 (45.9%)	Prydeiniwr	17 (0.9%)	Prydeiniwr arall (nodwch ar y dudalen nesaf)
1181 (64.9%)	Cymro/Cymraes	43 (2.4%)	Ddim yn Brydeiniwr (nodwch ar y dudalen nesaf)
91 (5.0%)	Sais/Saesnes	*	Ffoadur (nodwch eich cenedligrwydd presennol/diwethaf ar y dudalen nesaf?)
*	Gwyddel/Gwyddeles	*	Ceisiwr lloches (nodwch eich cenedligrwydd presennol/diwethaf ar y dudalen nesaf?)
*	Albanwr/Albanes	*	Dewis peidio â dweud

I ba grŵp 'ethnig' rydych chi'n perthyn? Ticiwch un blwch yn unig			
1707 (93.8%)	Gwyn - Prydeinig	*	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd

54 (3.0%)	Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch ar y diwedd)	*	Unrhyw gefndir Asiaidd arall (<i>nodwch ar y dudalen nesaf</i>)
*	Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	*	Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd
*	Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	*	Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd
*	Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	*	Unrhyw gefndir Du arall (<i>nodwch ar y dudalen nesaf</i>)
*	Unrhyw gefndir Cymysg arall (<i>nodwch ar y dudalen nesaf</i>)	*	Arabaidd
*	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	*	Sipsi neu Deithiwr
*	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd	*	Unrhyw grŵp ethnig arall (<i>nodwch ar y dudalen nesaf</i>)
*	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	*	Dewis peidio â dweud

Gwybodaeth hyfforddiant a gasglwyd rhwng 2012 a 2013

Yn ôl rhyw:

Gwryw	515
Benyw	890

Yn ôl oedran:

24 oed ac iau	101
25 – 39	542
40 – 49	418
50 – 59	308
50+	22
Heb ei nodi	18

Yn ôl cenedligrwydd:

Prydeinig	1382
Ddim yn Brydeinig	24
Ffoadur	*
Heb ei nodi	*

Yn ôl grŵp ethnig:

Gwyn	1356
Arall (e.e. Asiaidd, Du, Tsieineaidd)	37
Heb ei nodi	16

Yn ôl crefydd:

Cristion	739
Arall (e.e. Iddew, Mwslim, Bwdhydd)	32
Ddim yn gwybod	*
Dim un	578
Heb ei nodi	54

Yn ôl anabledd:

Salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd	49
---	----

Atodiad 3

GCDC - Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru

Adolygiad Blynyddol 2012-13

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Ymaelododd yr awdurdod â phartneriaeth Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC) ym mis Ebrill 2010, gyda'r nod o ddefnyddio darparwr unigol ar gyfer pob gwasanaeth a phob math o gyfieithu. Cyn hynny roeddem yn defnyddio gwasanaethau'r Llinell Iaith gydag adrannau'n gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cyfieithu ysgrifenedig, cyfieithu wyneb yn wyneb ac IAP.
- 1.2 Dylunnir GCDC i wella mynediad i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl sydd fel arfer yn wynebu anawsterau cyfathrebu. Mae'n darparu gwasanaethau ieithyddol mewn ieithoedd tramor, Cymraeg, ac iaith Arwyddion Prydain. Fe'i datblygwyd yn wreiddiol trwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaeth gan Gyngor Caerdydd, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg – a Chyngor Dinas a Sir Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ymaelodi â'r bartneriaeth.
- 1.3 Gall GCDC ddarparu ansawdd gwasanaeth gwell gan gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd trwy:
 - Sicrhau y cynhelir gwiriad diogelwch o'i holl ieithyddion i safonau'r heddlu.
 - Sicrhau bod gan ei holl ieithyddion gymwysterau neu eu bod wedi llwyddo ym mhrawf iaith GCDC.
 - Sicrhau bod ei holl ieithyddion yn derbyn hyfforddiant am ddim mewn cyfieithu ar y pryd proffesiynol a'r Côd Ymddygiad.
 - Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i'w ieithyddion trwy gynnig cyrsiau hyfforddi sector penodol am ddim wedi'u cyflwyno ar y cyd â'r gweithwyr proffesiynol a wasanaethir (iechyd, cyfreithiol neu lywodraeth leol).
 - Darparu sefydliadau â chyfieithwyr yn unol â'u gofynion penodol eu hunain fel y cytunwyd arno yn eu Cytundeb Lefel Gwasanaeth â GCDC.
- 1.4 Mae GCDC wedi parhau i gyflwyno'r manteision ariannol canlynol i aelodau'r bartneriaeth yn 2012-2013:
 - Lleihau amser teithio i gyfieithwyr ar y pryd – wedi'i gyflawni trwy hyfforddi cyfieithwyr ar y pryd lleol. Yn ogystal ag arbed costau cyfieithu ar y pryd, bydd hyn yn lleihau costau staff wrth aros am gyfieithydd ar y pryd.
 - Costau archebu llai. Disodlodd GCDC hyn ag un alwad ffôn neu e-bost.
 - Llai o gostau gweinyddu arian am drafod yr holl geisiadau am dâl, wedi'i ddisodli gan un anfoneb fisol gan GCDC.
 - Costau cyfieithu dros y ffôn wedi'u lleihau i 32c y funud.
 - Costau cyfieithu wyneb yn wyneb (heb gynnwys IAP) wedi'u lleihau i £30.00 yr awr heb unrhyw ffi 2 awr ofynnol.
- 1.5 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi defnydd yr awdurdod o GCDC dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys amrywiaeth yr ieithoedd y gofynnwyd amdanynt,

costau a dadansoddiad o'r meysydd gwasanaeth sy'n defnyddio'r Llinell Iaith. Dyma'r ail flwyddyn y mae gennym ddata am yr holl gyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar draws yr awdurdod.

2.0 Ieithoedd a Ddefnyddir

2.1 Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r awdurdod wedi gwneud 256 (271) o geisiadau ffôn, 417 (626) o geisiadau wyneb yn wyneb, a 34 (12) o geisiadau IAP, cyfanswm o 707 (897) o geisiadau am GCDC/gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Big Word, gyda cheisiadau am gyfanswm o 40(39) o ieithoedd.

DS Gall nifer o'r galwadau hyn fod yn alwadau dilynol i'r un defnyddwyr gwasanaeth.

Yr ieithoedd y gofynnwyd am gyfieithu wyneb yn wyneb ynddynt oedd (rhoddir nifer yr adegau mewn cromfachau):

1. Hwngareg (106)	14. Cantoneg (5)	26. Bosneg (1)
2. Bengaleg (73)	15. Arabeg (5)	27. Wcraineg (1)
3. Mandarin (45)	16. Corëeg (5)	28. Perseg (1)
4. Pwyleg (40)	17. Tamil (4)	29. Ffrangeg (1)
6. Sylheti (22)	18. Portiwgaleg (4)	30. Eidaleg (1)
7. Romaneg (18)	19. Sbaeneg (3)	31. Cwrdeg Cwrmanji (1)
8. Tsiecheg (15)	20. Lithwaneg (3)	32. Malayalam (1)
9. Cwrdeg Sorani (14)	21. Latfieg (3)	33. Cymraeg (1)
10. Tyrceg (12)	22. Rwsieg (2)	34. Wrddw (1)
11. Fietnameg (12)	23. Cwrdeg Bahdini (2)	35. Albaneg (1)
12. Pwnjabeg (6)	24. Bwlgareg (1)	
13. Arabeg Algeria (6)	25. Pashto (1)	5. IAP (34)

Costiodd y 451 o apwyntiadau gyfanswm o £41,807.05 (cyfartaledd o £92.79 yr un)

Cyfieithu dros y ffôn – wedi'i gyflawni trwy GCDC ar gyfer thebigword fel darparwr gwasanaeth. Rhoddwyd y data canlynol.

Y rhan fwyaf o'r ieithoedd a ddefnyddiwyd trwy'r gwasanaeth hwn oedd:

1. Mandarin (58)	10. Pwnjabeg (7)	19. Lithwaneg (2)
2. Pwyleg (32)	11. Tyrceg (7)	20. Hindwëg (1)
3. Bengaleg (27)	12. Tigrinya (5)	21. Cymraeg (1)
4. Wrddw (19)	13. Fietnameg (4)	22. Sbaeneg (1)
5. Arabeg (16)	14. Eidaleg (4)	23. Slofaceg (1)
6. Ffrangeg (16)	15. Cantoneg (3)	24. Tamil (1)
7. Romaneg (15)	16. Rwsieg (2)	25. Amhareg (1)
8. Cwrdeg (Sorani) (14)	17. Corëeg (2)	26. Albaneg (1)
9. Perseg (13)	18. Cwrdeg (Bahdini) (2)	27. Lingala (1)

Costiodd y 256 o adegau gyfanswm o £1487.36 (neu £5.81 yr alwad)

2.2 Cymharu

Mae'r awdurdod bellach wedi casglu gwerth 2 flynedd o ddata am ddefnydd ieithoedd a meysydd gwasanaeth. Yn 2010-2011, defnyddiodd yr awdurdod 34 o ieithoedd, yr un mwyaf poblogaidd ohonynt oedd Sylheti a Phwyleg.

3.0 Cost

- 3.1 Ers mis Ebrill 2010, mae Prosiectau Perfformiad a Strategol wedi talu anfonebau misol GCDC a chodi ffioedd ar feysydd gwasanaeth ar ddiwedd pob mis. Ceir arbediad parhaus o ganlyniad i feysydd gwasanaeth wrth leihau costau gweinyddu a oedd yn angenrheidiol yn flaenorol i drefnu cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd yn unigol.
- 3.2 Fel y nodwyd yn Atodiad 2, y cyfanswm cost i'r awdurdod oedd £42,429.41 a oedd yn cynnwys costau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, gan gynnwys IAP.

4.0 Casgliad

- 4.1 Mae'r defnydd o GCDC fwy neu lai wedi sefydlogi dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r gostyngiad yn ffioedd GCDC yn cael ei adlewyrchu mewn cost gyffredinol lai i'r awdurdod. Yn ogystal, mae'r defnydd yn weddol gyson trwy gydol pob mis o'r flwyddyn.
- 4.2 Mae'r gost i bob galwad ffôn yn dangos bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer contractau cymharol byr a all fod yn ddigonol ynddynt eu hunain neu a fyddai'n galluogi trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb llawn.

Atodiad A – Tabl Data Cymariaethol – Cyfieithu Dros y Ffôn

Blwyddyn	Nifer y ceisiadau	Nifer yr ieithoedd	Yr ieithoedd y gwnaed y nifer mwyaf o geisiadau amdanynt	Y defnyddwyr pennaf (meysydd gwasanaeth)	Cost
2003-04	49	11	1. Cwrdeg (17) 2. Tyrceg (13)	1. Tai (33) 2. Gwasanaethau Cymdeithasol (4)	£1481.80
2004-05	111	18	1. Tyrceg (12) 2. Cwrdeg (8)	1. Tai (29) 2. Gwasanaethau Ariannol (6)	£4391.15
2005-06	117	18	1. Rwsieg (26) 2. Tyrceg (25)	1. Tai (93) 2. Gwasanaethau Cymdeithasol (9)	£4250.37
2006-07	177	19	1. Pwyleg (51) 2. Rwsieg (32)	1. Tai (154) 2. Gwasanaethau Ariannol (8)	£6510.85
2007-08	156	24	1. Pwyleg (48) 2. Cwrdeg (17)	1. Tai (122) 2. Gwasanaethau Cymdeithasol (17)	£6639.60
2008-09	233	22	1. Cwrdeg (47) 2. Sorani (39)	1. Gwasanaethau Cymdeithasol (118) 2. Tai (94)	£8726.70
2009-10	205	22	1. Cwrdeg (35) 2. Perseg (30)	1. Gwasanaethau Cymdeithasol (113) 2. Tai (67)	£8099.00
2010-11	117	15	1. Arabeg (29) 2. Mandarin (20) 3. Pwyleg (11)	1. Tai (67) 2. Gwasanaethau Cymdeithasol (14) 3. ASART (14)	£1001.28
2011-12	271	27	1. Mandarin (74) 2. Arabeg (65) 3. Pwyleg (26)	1. Tai (185) 2. Gwasanaethau Cymdeithasol (21)	£1735.71
2012-13	256	27	1. Mandarin (74) 2. Pwyleg (32) 3. Bengaleg (27)	Ddim ar gael	£1487.36

Atodiad B – Cyfieithu Wyneb yn Wyneb ac IAP

Blwyddyn	Nifer y ceisiadau	Nifer yr ieithoedd	Yr ieithoedd y gwnaed y nifer mwyaf o geisiadau amdanynt	Y defnyddwyr pennaf (meysydd gwasanaeth)	Cost
2010-11	348	34	1. Sylheti (124) 2. Pwyleg (68) 3. IAP (19)	1. Gwasanaethau Cymdeithasol (253) 2. Addysg (12) 3. Amgylchedd (13)	£44,472.33
2011-12	626	39	1. Sylheti (145) 2. Hwngareg (105) 3. Mandarin (61)	1. Gwasanaethau Cymdeithasol (460) 2. Addysg (78) 3. Gwasanaethau Ariannol (37)	£66,257.73
2012-13	707	40	1. Hwngareg (106) 2. Bengaleg (73) 3. Mandarin (45)	Ddim ar gael	£41,807.05

Sylwer: Darperir y ffigurau llawn ar gyfer yr awdurdod cyfan o ddechrau ein haelodaeth â phartneriaeth GCDC.